www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 492
Gorffennaf 2021



# Ein ieuenctid ym myd cyfryngau

Yn y rhifyn hwn clywn gan Nia George sy'n astudio cwrs meistr mewn newyddiaduriaeth darlledu. Cawn hanes disgyblion Ysgol Brynrefail sydd wedi bod wrthi'n mynychu gweithdai creu rhaglen deledu, yn sgriptio ffilmiau ac yn dysgu technegau cynhyrchu. Tybed daw'r Steven Speilberg neu Fiona Bruce nesaf o fro'r Eco?!

Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

Allwch chi ffeindio Elin Enfys? Mae hi'n cuddio mewn 8 lle rhwng yr erthyglau. Ewch i chwilio am yr arth fach glên.

## Ciwio Cwm-y-Glo

Wedi 'laru ar yr oedi? Mae'r ciws ceir yn parhau i greu helynt! Darllenwch y stori rhwng y cloriau…

## Yn y rhifyn hwn:


- Nia a newyddiaduriaeth darlledu Tud 7
- Trafferthion teithio'r fro Tud 9
- Ar ben arall y lein Tud 13
- Ffarwelio â Bl.13 Ysgol Brynrefail Tud 16
- Holi Owain Tudur Jones Tud 32




10



32

**a mwy!**

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffwr**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail a Cwm-y-Glo:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant.
01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Gwenllian Carr, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## LLYTHYRAU

**Llythyr Panel Golygyddol**
Hoffai'r panel ddiolch yn fawr i chi gyd am anfon llwyth o gynnwys atom yn ddiweddar. Mae'n galonogol tu hwnt i weld cymaint yn digwydd yn ein hardal ar hyn o bryd, ac mae'n bleser darllen eich erthyglau difyr. Ymddiheurwn na allwn gynnwys popeth sy'n ein cyrraedd! Os nad yw'ch stori yn cyrraedd y papur, cofiwch bod modd i unrhyw un lwytho newyddion, stori, fideo, sain neu oriel luniau ar wefan BroWyddfa.360.cymru.

Mae datblygiad yr ifanc yn y maes cyfryngau a newyddiadura yn thema yn y rhifyn hwn. Ni allwn grybwyll hynny heb ddiolch i gynllun Bro360 Golwg. Yn ogystal ag arwain prosiect gwefannau bro, maen nhw wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer y gwirfoddolwyr. Criw ifanc 16-30 oed sy'n gyfrifol am olygu gwefan BroWyddfa.360.cymru ac maen nhw wedi cael llawer o gefnogaeth gan Golwg wrth ddatblygu sgiliau newydd. Roedd yr hyfforddiant diweddaraf yn canolbwyntio ar egwyddorion a thechnegau golygu er mwyn creu eitemau newyddion difyr a diddorol. Diolch i griw Golwg a Bro360 am ddatblygu ein newyddiadurwyr lleol ifanc, yn cynnwys ein cyfranwyr Tudalen yr Ifanc!

**Annwyl Olygydd**
Cefnogi Siaradwyr Newydd ... yn eich bro

Ar ddydd Sadwrn, 25ain Medi, bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal digwyddiad 'Cefnogi Siaradwyr Newydd ... yn eich bro'.

Ar y diwrnod hwn, gobeithiwn y bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ledled Cymru sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr a Chymry Cymraeg ddod ynghyd mewn gweithgarwch i ddarganfod mwy am yr ardal ble maent yn byw. Gall y digwyddiad fod yn daith gerdded yn yr ardal, ymweliad i ryw le o ddiddordeb, sgwrs gan hanesydd lleol, taith o amgylch tref benodol – unrhyw beth fyddai'n tynnu siaradwyr Cymraeg newydd mewn i'n cymunedau.

Gobeithir wedyn y bydd pawb yn dod ynghyd dros Zoom gyda'r nos ar gyfer noson gymdeithasol.


Rydym felly yn chwilio am unigolion sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb dros drefnu digwyddiad yn eu hardal nhw. Cysylltwch â swyddfa'r Gymdeithas 01970 624501 neu post@cymdeithas.cymru os am fwy o wybodaeth neu os am roi eich enw ymlaen i drefnu digwyddiad.

Diolch
**Nia Llywelyn**, Swyddog Dysgwyr Cymdeithas yr Iaith

**Annwyl Ddarllenwyr**
Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac erbyn 16eg Gorffennaf fan bellaf. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir,
**Gwenan Creunant**
Ffôn: 01970 612806
E-bost:
post@jamespantyfedwen.cymru




## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Awst/Medi | 9 Gorffennaf | 23 Gorffennaf |
| Hydref | 10 Medi | 24 Medi |
| Tachwedd | 8 Hydref | 22 Hydref |



**Annwyl Ddarllenwyr 'Eco'r Wyddfa'**,

**Safle Treftadaeth y Byd – rhaid gweithredu mesurau penodol i warchod y cymunedau.**

Os bydd ardaloedd y llechi yng Ngwynedd yn cael eu dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO, yna mae nifer o fesurau y mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd eu gweithredu er mwyn sicrhau na fydd y dynodiad yn cael effeithiau niweidiol ar ein cymunedau gan gynnwys ein hiaith. Mae'n eironig bod UNESCO ei hun, mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn gosod y Gymraeg yn y dosbarth 'Bregus' ar ei restr o ieithoedd Ewropeaidd sydd mewn perygl o ddiflannu.

Gan mai ardaloedd fyddai'n cael eu dynodi, yn hytrach nac adeiladau a strwythurau (yn wahanol i'r Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n bod eisoes yng Nghymru), mae perygl i'r ardaloedd cyfan hynny ddod yn fwy o gyrchfannau gwyliau nag y maent eisoes. Mae Croeso Cymru yn un o randdeiliaid y cais dynodi, ac mae'r corff cenedlaethol hwn ynghyd â chwmni Twristiaeth Gogledd Cymru yn amcanu denu mwy fyth o ymwelwyr i ardaloedd fel Dyffryn Peris os bydd yr enwebiad yn llwyddiannus.

Gan hynny, mae angen i Gyngor Gwynedd ateb y ddau gwestiwn canlynol:

1. Sut mae'r Cyngor am sicrhau na fyddai mwy o stoc dai Llanberis a'r cylch yn troi'n ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr o ganlyniad i'r dynodiad, ac felly'n dwysáu'r argyfwng tai? Mae astudiaeth academaidd yn dangos bod nifer dda o ymwelwyr i ardal yn dewis prynu tŷ yno fel ail gartref.

2. Sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i sicrhau na fyddai denu mwy o ymwelwyr yn cynyddu'r mewnlifiad Saesneg ac felly'n gwanychu'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol? Mae astudiaeth yn dangos bod nifer dda o ymwelwyr i ardal yn prynu tai i fyw yno'n barhaol. Ymhellach, cafwyd astudiaeth gan Bwyllgor Cludiant a Thwristiaeth Senedd Ewrop yn cyflwyno tystiolaeth fod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn dioddef effeithiau gor-dwristiaeth, a bod Cymru eisoes yn un o'r lleoedd yn Ewrop sy'n amlygu hynny.

Mae'r duedd i ail gartrefi a thai gwyliau gynyddu mewnlifiad parhaol wedi'i dwysáu gan y pandemig, wrth i ragor o bobl ddod yma ar wyliau yn hytrach na mynd dramor; wrth i ragor benderfynu ymddeol yma'n gynnar; a rhagor symud i fyw yma a gweithio o gartref. Mae hynny'n codi prisiau eiddo, ac yn gwaethygu'r argyfwng tai oherwydd na all pobl leol fforddio prynu tŷ yn eu hardal eu hunain.

Sut mae atal hynny? Rhaid i Gyngor Gwynedd gymryd camau a gosod mesurau penodol yn eu lle er mwyn sicrhau na fyddai'r dynodiad yn cael effeithiau negyddol ar y gymuned, sef:

1. Gwneud holl gynghorau cymuned ardaloedd y llechi yn rhanddeiliaid yn y Safle Treftadaeth y Byd trwy roi lle i'w cynrychiolwyr ar y Bwrdd Rheoli, fel bod y cynghorau cymuned yn cyfranogi'n llawn yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd Rheoli. Byddai hynny'n eu galluogi i fynegi barn gymunedol ar strategaeth, prosiectau a datblygiadau.

2. Bod Adran Gynllunio'r Cyngor Sir yn ail-lunio methodoleg yr asesiad ardrawiad iaith presennol fel ei fod yn llawer cadarnach, er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai datblygiadau tai a datblygiadau twristaidd yn niweidiol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Wedi'r cyfan, ein hiaith ydi ein treftadaeth gyfoethocaf fel bro ac fel gwlad, ac mae ei sefyllfa'n fregus.

3. Bod yr Adran Gynllunio yn sefydlu meini prawf a dangosyddion ar gyfer datblygiadau twristaidd o bob math er mwyn atal y gor-ddarparu presennol. Mae gormodedd yn broblem fawr yng Ngwynedd o ganlyniad i or-dwristiaeth, a rhaid rheoli'r sefyllfa er mwyn gwarchod buddiannau cymunedau lleol.

4. Sicrhau na fydd Croeso Cymru a chwmni Twristiaeth Gogledd Cymru yn camddefnyddio'r dynodiad er mwyn hyrwyddo eu hamcanion eu hunain. Nid yw'r ddau gorff hyn yn atebol i'n cymunedau ni, ac nid ydynt yn derbyn bod twristiaeth anghynaliadwy ar waith yng Ngwynedd, nac yn cydnabod bod gor-dwristiaeth yn ymledu drwy'r sir.

Gofynnwn i Gyngor Gwynedd ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion hyn, a thrwy hynny ddangos ymrwymiad i wneud popeth sydd ei angen i sicrhau na fyddai dynodi ardaloedd y llechi yn Safle Treftadaeth y Byd yn gam a allai wneud sefyllfa'n hiaith yn fwy bregus fyth. Hyd yma, nid ydynt wedi gwneud.

Yn gywir,
**Howard Huws**
Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth Cylch yr Iaith

# Yn ystod y misoedd aeth heibio...

- Criced. Batiau wedi eu gwneud o bren bambŵ'n cael eu dyfarnu'n anghyfreithlon.
- Bwyd. Mae digon o fwyd yn cael ei gynhyrchu led-led y byd i gynnal poblogaeth o 11 biliwn – ond dim ond 7 biliwn o bobl sydd ar y ddaear. Er hynny, credir fod 7 miliwn o blant yn marw o newyn yn flynyddol.
- Concrit. Mae cymaint ohono wedi ei gynhyrchu fel y gallai orchuddio arwynebedd y ddaear gyfan i drwch o 2mm.
- Plastig. Mae gwastraff plastig wedi ei ddarganfod ar fynydd uchaf y byd ac yn nyfnderoedd dyfnaf y cefnforoedd.
- Lego. Mae mwy o bobl Lego yn y byd nag o bobl.
- Sothach. Mae'n fwriad gwahardd hysbysebu bwydydd sothach tan ar ôl 9:00pm.
- Banc bwyd. Yn ystod y flwyddyn 2019 roedd 700,000 o deuluoedd Prydain wedi gorfod gwneud defnydd o fanc bwyd. Amcangyfrifir y bydd y cyfanswm yn llawer mwy yn ystod 2020, sef blwyddyn y pandemig.



- Gemau Olympaidd. Mae 500 o drefi yn Japan i fod i gynnig lletygarwch i athletwyr o bob rhan o'r byd yn ystod yr haf. Ond mae 40 ohonynt eisoes wedi tynnu allan o'r cynllun oherwydd pryderon Covid-19.
- Diplomydd. Cymro o'r enw Martin Griffiths sydd wedi ei benodi yn ddiplomydd ar ran y Cenhedloedd Unedig i geisio heddwch yn Yemen.
- Rheilffyrdd. Y Llywodraeth Llundeinig yn sefydlu "Great British Railways". Y Toriaid o bawb yn rhannol genedlaetholi rheilffyrdd? Ynteu a yw hon eto'n ymgais i warchod yr 'undeb' bondigrybwyll yn wyneb y cynnydd yn y galw am annibyniaeth yn yr Alban a Chymru?
- Flake. Yr enwog Cadbury 99, sydd mor hanfodol i fwynhau cornet hufen iâ, yn dioddef prinder dybryd ddiwedd Mai, ac yntau'n dathlu ei benblwydd yn 100 oed eleni. Yr unig fantais o'r mis Mai gwlypaf erioed yn hanes Cymru yw'r ffaith na fu cymaint o alw am y 99.
- Garddio. Yr RHS yn agor gardd newydd yn Salford ar gyrion Manceinion sy'n cael ei disgrifio fel y prosiect garddio mwyaf yn Ewrop. Caiff meddygon yr hawl i anfon cleifion yno i gymryd rhan mewn 'garddio therapiwtig' er lles i'w hiechyd corfforol a meddyliol.
- Eryri. O ran ymchwiliadau ar Google, Parc Cenedlaethol Eryri yw'r mwyaf poblogaidd o holl barciau cenedlaethol Ewrop, ac y mae 252 ohonynt. O ystyried fod canran dda o'r ymchwilwyr rheiny'n debygol o ymweld â'r Parc, does ryfedd fod rhaid disgwyl am ddeugain munud i gyrraedd y copa ar rai dyddiau prysur.
- Disc Jockey. Ray Cordeiro, y troellwr disgiau hynaf yn y byd yn ymddeol yn 96 oed ar ôl gyrfa o dros 70 mlynedd. Cafodd ei eni yn Hong Kong, a daeth i Lundain ym 1964 i ddilyn cwrs gyda'r BBC, a thra yno bu'n ddigon ffodus i gael cyfweld y Beatles. Dychwelodd i Hong Kong, ac yno y treuliodd weddill ei yrfa gerddorol.
- Gwyliau Banc. Ar ddechrau mis Mehefin y flwyddyn nesaf caiff pawb fwynhau pedwar diwrnod o wyliau banc i ddathlu 70 mlynedd y Frenhines ar ei gorsedd. A fydd dim rheidrwydd ar neb i ymuno yn y dathliadau chwaith!
- Coed. Mae Glasgow'n bwriadu plannu deg coeden am bob un person sy'n byw yn y ddinas – tua 18 miliwn o goed – a chreu coedwig drefol.
- **Dafydd Whiteside Thomas**

# Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

**£50** - Gwen Griffith er cof am John M Griffith, Fron, Deiniolen
**£10** - Ieuan Williams a'r teulu, Llain yr Ardd, Bethel
**£10** - Menna ac Elfyn, Blaen y Nant, Waunfawr
**£10** - Nancy Williams, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun
**£5** - Er cof am Mrs Marina Williams, Llanrug
**£5** - Dean ac Anne Clarke, Waunfawr

# Un funud fach …

## Gwallau

Mae Michael Daniel Jones, Prifathro Coleg Annibynnol y Bala ac un o sylfaenwyr y Wladfa wedi marw. Nid syndod hynny gan iddo gael ei eni ym 1822. Ond mae'n well i mi gadarnhau'r farwolaeth wedi i mi ddarllen y geiriau hyn mewn cyfrol sydd newydd ei chyhoeddi: 'un o sylfaenwyr y Wladfa ym Mhatagonia ac a fu ym 1898'. 'Ac a fu' beth? Yr hyn y bwriadwyd ei ddweud oedd 'ac a fu farw'; ond gadawyd y gair 'farw' allan o'r frawddeg!

Blerwch ar ran yr awdur yw peth felly wrth gwrs. Mae gen i hawl i ddweud hynny. Ac mae gen i hawl i dynnu sylw at y gwall gan mai fi oedd yn gyfrifol amdano! Fi sgwennodd y frawddeg, a fi felly a adawodd y gair allan. Er i mi ddarllen ac ail ddarllen y cymal, ac er i mi weld proflenni ar sgrin ac ar bapur, welais i mo'r camgymeriad nes ei bod yn rhy hwyr a'r llyfr yn fy llaw. Ond y munud yr agorais hwnnw, sylwais ar y gair coll. Mae'n debyg na welais y gwall wrth ddarllen y proflenni am fy mod yn gwybod beth ddylai fod yn y frawddeg.

Nid peth dieithr yw i bobl beidio â sylwi ar eu beiau eu hunain. Mae'n hawdd iawn gweld beiau pobl eraill. Ond mater arall yw gweld ein beiau'n hunain: medrwn fod yn gwbl ddall i'r rheiny. Nid ein bod yn ein cyfrif ein hunain yn berffaith wrth gwrs. Heb ei fai, heb ei eni; ond mae byd o wahaniaeth rhwng dweud hynny a chydnabod ein beiau gerbron Duw.

Mor rhwydd yw cynefino â'n meddyliau a'n geiriau a'n hymddygiad. O bosib nad ydym yn gwbl fodlon arnyn nhw ac y byddai'n dda gennym newid a gwella rhai pethau. Wedi'r cwbl, mae gennym ryw syniad o'r math o bobl y dylem fod. Ar y cyfan, tueddwn i feddwl ein bod yn agos ati, ac os oes rhaid mi fedrwn esgusodi llawer o'r gwendidau. Ond mor anodd yw gweld ein hunain fel y mae Duw yn ein gweld, ac fel y mae Duw am i ni ein gweld ein hunain. Oherwydd nid amherffeithrwydd neu feiau bychain yw'r drwg sydd ynom ond gwrthodiad o Dduw a gwrthryfel yn ei erbyn. Y mae pob diffyg a bai – mawr a mân – yn ddifrifol am eu bod yn arwydd o'n hamharodrwydd i dderbyn awdurdod Duw ac ufuddhau iddo.

Fedraf fi na neb arall wneud dim am y gwallau sydd yn y gyfrol orffenedig. Ni ellir gwared â hwy: maent yno ar ddu a gwyn i unrhyw un eu gweld. A fedrwn ni chwaith wneud dim i wared â'n pechodau yn erbyn Duw: mae'r gwrthryfel yn rhy ddwfn ac yn ormod rhan ohonom. Dyna pam fod Efengyl Crist mor werthfawr, a hithau'n cyhoeddi bod Iesu Grist wedi gwneud trosom yr hyn na fedrem ei wneud. Wrth farw ar Galfaria, aeth yn gyfrifol am ein pechodau a'n gwrthryfel a dwyn y gosb amdanynt yn ein lle.

**John Pritchard**

# Pigion Bro Wyddfa 360

**Noson o gerddi a hanes Lle-CHI Dyffryn Peris**

**Roedd eitem ar wefan BroWyddfa360 yn tynnu sylw at ddigwyddiad arbennig a gafodd ei gynnal ym mis Mehefin gan Lenyddiaeth Cymru. Dyma bwt o wybodaeth o'r eitem:**

Y noson o Ddyffryn Peris yw'r cyntaf mewn cyfres o sesiynau sy'n rhan o daith Ifor ap Glyn o gwmpas ardaloedd y llechi er mwyn dysgu mwy am yr hanes ac i glywed sut mae'r ardal wedi ysbrydoli gwaith newydd gan feirdd a cherddorion lleol mewn sgyrsiau gyda'r artistiaid. Bydd cyfle hefyd i weld y perfformiadau cyntaf o'r gwaith newydd yn ystod bob digwyddiad. Ymysg y beirdd a'r cerddorion sy'n rhan o'r prosiect mae Lisa Jên, Manon Steffan Ros, Gai Toms, Llio Maddocks, Dyl Mei, Karen Owen ac Edwin Humphreys.

Yn ystod haf 2021 bydd UNESCO yn penderfynu a yw Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn haeddu statws Safle Treftadaeth Byd. Byddai derbyn y statws yn dynodi'r ardal fel Tirwedd Ddiwylliannol o bwys rhyngwladol, gan ymuno â safleoedd Treftadaeth Byd Blaenafon a Dyfrbont Pontcysyllte wrth gydnabod cyfraniad Cymru i'r Chwyldro Diwydiannol. Mae taith Ifor ap Glyn yn rhan o'r ymdrech i dynnu sylw at werth y cais.

Am fwy o wybodaeth, ewch i llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/lle-chi/

Mae modd gwylio'r sesiwn eto ar sianel YouTube Llenyddiaeth Cymru.




**Bro Wyddfa 360**




SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076

8 Stryd y Castell, Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru

## DEINIOLEN

**Cynghorydd Elfed Williams**
Mae'r cynghorydd wedi cyfarfod yr Aelod Senedd Sian Gwenllian yn ddiweddar er mwyn trafod nifer o faterion sydd yn creu pryder i drigolion y pentref gan gynnwys cyflwr lonydd lleol, diogelwch yr ysgol, problemau parcio, meysydd chwarae a Thŷ Elidir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen**
Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau'r pentref am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Yn ogystal, dylid nodi nifer aelodau'r mudiad neu oddeutu'r nifer fyddai yn elwa o rodd ariannol yn ogystal â nodi os ydyw ar gyfer gweithgaredd neu ar gyfer prynu unrhyw eitem benodol. Dylid anfon ceisiadau at yr ysgrifennydd, Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, LL55 3DG. Y dyddiad cau yw 31ain Gorffennaf 2021.

# Byddwch yn barod i ddawnsio!






Yn 2018 sefydlwyd grŵp dawnsio disgo gan ddwy ferch ifanc leol, sef Chloe Roberts ac Iola Bryn Jones, i blant a phobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, o'r enw Hudoliaeth. Cafodd y grŵp lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2019 ac yn sgil y llwyddiant, aed ati i gychwyn y "Clwb Dawns Hudoliaeth". Bwriad y grŵp yw rhoi cyfleoedd i fwy o blant a phobl ifanc yr ardal ac felly erbyn hyn cynigir gwersi i blant o 4 mlwydd hyd at 18 mlwydd oed.

Mae 15 mlynedd o brofiad dawnsio bellach gan Iola a Chloe, ac maen nhw'n ffrindiau ers hynny, gan fwynhau cyfleoedd i ddawnsio ar draws Cymru mewn amrywiaeth o gystadlaethau.

Creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc yr ardal oedd y bwriad wrth sefydlu Clwb Dawns Hudoliaeth. Steil dawnsio'r clwb yw cyfuniad o Ddisgo, Stryd ac Hip-Hop. Wrth ymuno â'r Clwb, mae'r aelodau yn cadw'n heini, creu ffrindiau newydd, codi hyder ac yn bwysicaf oll - cael hwyl!

Mae croeso mawr i chi ymuno â'r clwb, wnewch chi ddim edrych yn ôl!
Mae'r aelodau presennol yn mwynhau eu hunain yn arw ac yn cynyddu eu hyder personol pob wythnos.

Yn ogystal â llwyddiant wrth gystadlu yn Eisteddfod Yr Urdd fel clwb am y tro cyntaf, cafwyd parti Calan Gaeaf yn 2019 i godi arian i brynu "system sain" i'r clwb. Gyda chefnogaeth yr holl rieni a phobl yr ardal roedd y parti yn llwyddiant a hanner, a chasglwyd dros £400!

Mae'r criw yn gobeithio ail gychwyn fel clwb llwyddiannus ym mis Medi 2021. Mae Covid-19 wedi gohirio'r ymarferion ers Mawrth 2020, sy'n golygu nad yw'r aelodau wedi medru dod ynghyd ers hynny, ac mae pawb yn methu ei gilydd yn arw. Er hynny, bu'r grŵp yn brysur yn rhoi sialensiau ar-lein i'r aelodau, ac mae modd derbyn tystysgrif am gwblhau'r sialensiau. Mae'r clwb yn edrych ymlaen at groesawu pawb yn ôl cynted a bo modd - felly byddwch yn barod i DDAWNSIO!

Os hoffech fwy o wybodaeth am y clwb, cysylltwch â Chloe Roberts neu Iola Bryn, neu ewch i dudalen Facebook neu Instagram Clwb Dawns Hudoliaeth.

# Cais Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Mae'r ymgais i sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn bwrw yn ei flaen. Mae'r argymhelliad sydd i'w gyflwyno i Banel Treftadaeth y Byd UNESCO yn ffafriol, a disgwylir penderfyniad terfynol yn ystod mis Gorffennaf, 2021 pan fydd y Panel yn cyfarfod yn rhithiol yn Tsiena. Os yn llwyddiannus, yr ardal llechi fydd y pedwerydd Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, yn ymuno â llefydd fel Mur Mawr Tsiena, y Taj Mahal a'r Great Barrier Reef ar y rhestr ryngwladol.

Rhoddodd ein hardal do ar y byd, ac mae'r dirwedd llechi'n cael ei dathlu am ei chyfraniad byd eang yn darparu deunyddiau, pobl, sgiliau a thechnoleg i bedwar ban byd yn ystod y 19eg ganrif, yn ogystal â dathlu ein diwylliant, iaith a thraddodiadau arbennig sydd wedi siapio a diffinio ein cymunedau.

Mae pobl wedi bod yn ganolog i dirwedd llechi gogledd Cymru ers y cychwyn. Mae'r sgiliau a thechnegau a ddatblygwyd yr holl flynyddoedd yn ôl yn parhau, ochr yn ochr â defnydd arloesol ac anarferol i'r graig. Mae dylanwad diwylliannol a chymdeithasol diwydiant y llechi ar yr ardal wedi bod, ac yn parhau yn arwyddocaol hyd heddiw. Mae llawer mwy i lechi na thoeon tai ac mae nifer yn gweithio neu'n cael eu hysbrydoli yn ddyddiol gan y diwydiant neu'r dirwedd.

Y diwydiant llechi oedd y Cymreicaf o ddiwydiannau mawr Cymru a dyma'r ardal sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg heddiw. Mae dros 70% o boblogaeth dyffrynnoedd llechi Gwynedd yn siarad Cymraeg, ac mae hyn yn rywbeth ry'n ni'n ymfalchïo ynddo.

Fel rhan o ddatblygu'r dynodiad, mae Cyngor Gwynedd ac ystod o bartneriaid trwy nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Partneriaeth Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig wedi bod yn cydweithio gyda chymunedau o fewn chwe ardal y cais ar y cynllun 'LleCHI' i ailgysylltu pobl gyda'u treftadaeth gyfoethog, i godi hyder a balchder ymysg trigolion a sbarduno adfywiad ein cymunedau. Mae cynlluniau yn cynnwys gwaith celf, baneri lliwgar, dehongli amrywiol, gwella cyfleusterau lleol, hyfforddiant, sesiynau addysgiadol, cydweithio gyda'n pobl ifanc a llawer mwy. Bydd Arddangosfa yn dathlu LleCHI ar agor yn STORIEL, Bangor dros fis Gorffennaf – Hydref, 2021.

Dywedodd Thomasine Tomkins ar ran Circo Arts sydd wedi derbyn nawdd LleCHI ar gyfer cydlynu addurno'r blwch ffôn yng nghanol pentref Llanberis "Rydym yn deall pwysigrwydd prosiectau sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i'n cymuned, ac yn hyrwyddo teimlad o berthyn. Mae edrych i'r gorffennol yn ein helpu i ddeall o ble rydyn ni wedi dod a pham rydyn ni lle rydyn ni nawr. Mae dathlu pwy ydym ni mewn ffordd gadarnhaol yn ein helpu i adeiladu dyfodol mwy disglair."




**Tegid Roberts gyda darluniau o'r chwedlonol Marged Fwyn Ferch Ifan ar un o'r blychau ffôn yn Llanberis. Bydd rhagor o ddyluniadau gan artistiaid lleol eraill yn ystod yr Haf.**

Dilynwch gynnydd y prosiectau a dysgu mwy am y cais ar gyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru neu ar y wefan www.llechi.cymru

# O Fyd Amaeth

Mae achos dathlu yn lleol gyda dwy stori o lwyddiant yn y byd amaethyddol. Mae traddodiadau a gwreiddiau'r ffordd o fyw, sef cneifio a hyfforddi cŵn defaid, yn fyw ac yn iach, a dau gymharol 'ifanc' sy'n ymwneud â'r llwyddiannau hyn.

Y cneifio yn gyntaf. Mae enw Elis Ifan Jones, Y Fachell, Llanddeiniolen yn gynyddol gyfarwydd i ni bellach. Mae ganddo gryn brofiad fel cneifiwr eisoes, gan weithio gyda 2,000 o ddefaid ar fferm y Fachell, a'i brofiad fel myfyriwr amaethyddol yng Ngholeg



Glynllifon dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Gan fod Elis wedi ennill anrhydedd yn ddiweddar bydd y cyfleon yn ymestyn ymhellach. Bu'n llwyddiannus mewn ymgyrch a drefnwyd gan gwmni British Wool i ymestyn cyfleoedd a phrofiadau cneifwyr ifanc. Caiff bellach gyfleon i deithio dramor i finiogi'r grefft. Yn gynwysiedig yn y wobr mae blwyddyn o diwtoriaeth a chyfarpar cneifio werth £500. Mae Elis yn edrych ymlaen i'r her gorfforol, ac hefyd y teithio a chyfarfod pobl newydd wnaiff arwain at rannu profiadau. Dymuniadau gorau iddo.

Lawr y ffordd ar gyrion Pentir mae un o hogiau Bethel, Glynne Jones yn dal tir. Mae Glynne yn brofiadol iawn ym maes hyfforddi cŵn defaid. Ond bydd enw Pentir yn ymestyn ymhellach wedi i Glynne gael y pris anhygoel o £7,600 am ast fach naw mis oed yn ocsiwn Skipton – record byd am anifail o'r fath. Ac enw'r ast fach – Pentir Lassie. Roedd Glynne wedi magu a meithrin tad yr ast fach sef Grayless Cêt ers ei brynu yn gi bach wyth wythnos oed yn 2014. Erbyn hyn mae'r ast fach yn cynefino â thir ei pherchennog newydd ger Preston. Da iawn Glynne a hir y pery dy allu i hyfforddi cŵn gweithio Cymreig o safon – y gorau yn y byd ym marn nifer o wybodusion.





# Llên Natur



## Harri Willams a Chynhebrynau Ddoe

Wrth drafod atgyfodiad posib yr hen elor geffyl a gedwir yng Nghwt yr Hers yn Waunfawr ers talwm, dyna gyfeirio at fân ddefodau angladdol y stryd fawr fel roedden nhw'n cyffwrdd ni blant y 50au. Soniais am sefyll yn barchus, stond a chap yn y llaw wrth i'r osgordd basio heibio - adnabod neu beidio'r anffodus yng nghefn y cerbyd blaen. Anghofiais yn llwyr, hyd nes i'm cyfaill o Sir Fôn f'atgoffa, am yr arferiad cyffredin yn y pentrefi o 'gau'r cyrtans' am gyfnod y cynhebrwng er parch at deulu'r ymadawedig. 'Sgwn i pryd gychwynnodd yr arferiad hwnnw? Pryd ddaeth i ben (os gwnaeth)? A phwy sy'n ei gofio? (Byddai ateb i'r trydydd cwestiwn yn gliw i gael ateb i'r ail).

Gweinidog 'Capel Mawr' Waunfawr y pryd hwnnw oedd Harri Williams. Yng Nghroeswaun ym mhen arall y pentre' oeddwn i'n byw, dan oruchwyliaeth Mr Rowlands a chapel Croesywaun. Nid oedd gennyf felly fawr o adnabyddiaeth o Harri Williams. Ond yn ddiweddar, trwy ddirgel ffyrdd, mi gefais gyfle i fodio trwy un o lawysgrifau Harri a achubwyd o blith y trugareddau a adawodd ar ei ôl. Testun y llawysgrif oedd ei bererindod i ryw Ddamascus adaryddol (esboniad yn y man) a oedd yn rhan o'i fyd personol a phreifat. I mi doedd na phen na chynffon yn perthyn i'r ddogfen ar yr olwg gyntaf, a digon di-drefn a llawn croesi allan oedd yr ysgrif hyd nes i'w nith Catrin Evans chwynnu'r darnau petrus, a'i drawsysgrifio yn gelfydd. Siom o'r ochr orau a gefais ar ôl i Catrin wneud ei majic!



Mae offeiriaid a phersoniaid yr eglwysi Anglicanaidd yn enwog am eu diddordeb - a'u gallu yn wir - fel naturiaethwyr, ers y o leiaf y 19eg ganrif. Ond nid felly'r gweinidogion anghydffurfiol Cymreig a oedd yn cadw fwy at lythyren eu cytundeb gyda'r Hen Gorff, ac felly yn fwy cydwybodol o'u dyletswyddau bugeiliol nag unrhyw beth 'all-gwriciwlaidd'. Dyna pam roedd ysgrif Harri mor annisgwyl i mi - gweinidog eglwys anghydffurfiol yn gwylio adar…. sgersli!

Ond hoffwn feddwl erbyn hyn mai camargraff oedd hwn – a bod 'capelwrs' yn gallu bod yn naturiaethwyr wedi'r cwbl! Mae ysgrifau Harri Williams yn disgrifio ei anturiaethau adaryddol tra yn Waunfawr, ac maen nhw'n frith o hanesion nas cyhoeddwyd erioed. Efallai nad oedd ganddo hyder yn y derbyniad fyddent yn ei gael gan y Corff a'i ddilynwyr? Llawer rhy seciwlar i'r oes efallai?

Un o'r hanesion hyn sy'n aros yn y cof yw iddo glywed, wrth weinidogaethu angladd ym mynwent Llanbeblig ar gyrion Caernarfon, regen ŷd yn galw o'r caeau gwair cyfagos. Mae'n siŵr bod Harri yn rhy ystyriol o deimladau ei braidd i gyfaddef iddo gymryd sylw o hen aderyn aflafar tra yng nghanol achlysur mor ddwys. Gallwn fod yn fwy hyderus o faddeuant iddo wrth rannu'r stori chwedeg a mwy o flynyddoedd yn ddiweddarach!

Does dim caeau gwair bellach wrth ymyl Eglwys Llanbeblig - does dim caeau, wir, heb sôn am wair! Ac mae sŵn aflafar y rhegen ŷd wedi marw o'r tir bellach, ac yn parhau yn unig yn yr hen ddywediad "taw dy hen sŵn wir - ti fatha ragarug"! Mae sawl un o Waunfawr o oedran digonol i'w gofio yn y caeau wrth hel y gwair, wedi gofyn i mi 'be 'di ragarug?' Un ai mae eu cof yn pallu neu fod rhegen yr ŷd yn brinnach yn yr ucheldir nag yng nghaeau llawr gwlad. Be 'dach CHI yn ei gofio….?

**Duncan Brown**

# TUDALEN YR IFANC



Mae Nia George o Frynrefail yn astudio cwrs meistr mewn newyddiaduraeth darlledu ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd. Aeth criw Tudalen yr Ifanc i'w holi am y profiad:

**Sut brofiad oedd astudio newyddiaduraeth mewn blwyddyn brysur yn sgil y pandemig a'r etholiad?**
Mae o wedi bod yn gyfnod heriol, yn enwedig ar y cychwyn, oherwydd roedd yna lot o gyfyngiadau. Roedd o'n anodd dod i arfer gyda'r sgiliau golygu teledu a radio wrth gael gwersi ar Zoom. Ond dwi'n meddwl ein bod ni wedi dysgu mwy gan fod ni wedi gorfod canolbwyntio mwy ac wedi gorfod ymarfer ar ben ein hunain. Hefyd mae o wedi bod yn reit braf achos bod y pynciau 'di cael eu taflu atom ni mewn ffordd. Dwi wedi cael gwneud amrywiaeth o straeon. Dwi wedi dysgu pa mor bwysig ydy o i adrodd straeon yn enwedig trwy gyfnod fel 'ma. Gyda'r etholiad gafon ni gyfle i neud rhaglen fyw o'r diwrnod ac roedd hynna'n brofiad gwych... ond blinedig hefyd!

**Beth yw dy hoff beth di am y cwrs?**
Y peth dwi wedi ffeindio fwyaf difyr ydy dod i adnabod amrywiaeth o bobl fyswn i byth yn cael y cyfle i siarad gyda fel arfer a rhannu eu straeon nhw. Dwi wedi mwynhau dysgu sut i adrodd straeon mewn ffyrdd amlgyfrwng ac wedi cael gwneud ystod eang – o becyn newyddion am berson byddar yn cael trafferth yn ystod y pandemig i gaffi newydd sydd yn cael ei agor lle 'da chi'n gallu yfad eich *hot chocolate* a chwarae gemau cyfrifiadurol yr 'un pryd! Hefyd ar ôl i fi orffen y broses o greu pecyn dwi'n teimlo fatha 'o gosh, waw, fi sy' wedi gwneud hwnna'.

**Beth oedd fwyaf heriol am y cwrs?**
Yn sicr y diwrnodau cynhyrchu sydd yn dechrau am 8:30am. Dwi'n gorfod gwneud yn siŵr 'mod i'n gwybod yn union be' sydd wedi bod ar y newyddion y bora yna ac efo stori ar gyfer y diwrnod. Y deffro yn y bora sydd yn anodd rili!

**Lle wyt ti'n gweld newyddion bro yn eistedd o safbwynt newyddiaduraeth yng Nghymru?**
Ers symud i Gaerdydd dwi wedi sylweddoli pa mor bwysig ydi newyddion bro achos pan dwi isho gwybod be sy'n mynd ymlaen adra dwi'n gallu defnyddio'r gwefannau bro sydd mor gyfleus. Yn sgil y pandemig dwi heb gael mynd adra llawer ac felly mae'n ffordd o gadw cysylltiad efo fy ardal i. Mae'r newyddion bro yn cynnwys straeon mwy positif hefyd a dwi wedi mwynhau eu darllen nhw!










**Beth wyt ti'n gweld dy hun yn ei wneud yn y dyfodol?**
Wrth ddysgu'r holl bethau gwahanol ar y cwrs, dwi'n meddwl bod o wedi mynd ychydig bach yn anoddach i mi wybod be dwi isho neud, achos dwi wedi mwynhau bob rhan o'r cwrs. Yn bersonol, dwi'n meddwl 'swn i'n licio mynd i gyfeiriad newyddiaduraeth ddigidol, dwi'n mwynhau y rhan yma o newyddiaduraeth ac yn meddwl bod o yn bwysig gan fod cyn lleied o bobl rwan yn gwylio'r newyddion ac yn prynu papur newydd. Ond dwi hefyd yn mwynhau radio a 'swn i yn licio go arall yn cynhyrchu!

**Sut deimlad ydi bod adeilad dy gwrs wedi cael ei leoli yng nghanolbwynt newyddiaduraeth Cymru?**
Mae'n hollol wych! Mae ein hadeilad ni efo stiwdios ein hunain sy'n efelychu beth sydd gan y BBC drws nesa'. Pan ti'n cerdded i mewn ac yn gweld y BBC ti'n teimlo mae fama wyt ti isho bod. 'Dan ni yn ddigon lwcus i gael gweithio gyda rhai pobl o'r BBC ac wedi cael amrywiaeth o sesiynau Cymraeg gyda Bethan Rhys Roberts ac maen nhw wedi bod yn wych!

**Wyt ti yn gweld y newyddion cyfrwng Cymraeg yn ffynnu gyda gwefannau newydd megis gwefan newyddion S4C yn cael ei lansio?**
Dwi'n meddwl y cyfnod yma ydi'r cyfnod ble mae'r mwyaf o gyfleoedd wedi bod. O'n i ddigon ffodus i gael profiad gwaith gyda'r app newydd S4C ar ôl iddo gael ei lansio. Mae'n dangos pa mor bwysig ydy hi i gael newyddion hawdd, sydyn ar gyfrwng ffôn symudol neu ar y we. Dwi'n meddwl ein bod ni'n byw mewn byd mor brysur felly mae'n rhaid i ni wneud newyddion yn hawdd i bobl. Dydy pobl ddim efo'r amser i eistedd i lawr a darllen papur newydd neu i wylio'r newyddion ar y teledu ac felly dwi'n meddwl bod rhaid i'r newyddion fod yr un mor sydyn â bywydau pobl. Dwi yn meddwl bod newyddiaduraeth wedi newid, ond er gwell, wrth iddo newid gyda'r amser a dwi'n edrych ymlaen at fod yn rhan o hyn.

**Pa gyngor y byddet ti'n rhoi i dy hun pe bai ti dal yn yr ysgol?**
Yn yr ysgol o'n i bach mewn *bubble* a dydi hynna ddim yn beth drwg o gwbl. Ond weithiau ti'n dod i arfer efo'r bobl sydd gen ti o dy gwmpas ac weithiau mae hynna'n gallu dal chdi'n ôl. Mae o mor bwysig bod chdi'n camu allan o'r *bubble* yna ac yn gwneud be ti isho gwneud. Hefyd cael yr hyder i siarad efo pobl ti erioed yn meddwl bysa chdi'n siarad efo nhw a bod yn hyderus i ofyn cwestiynau ac i ofyn am help. Mwy na ddim byd, gwna be ti'n meddwl sy'n teimlo'n iawn i chdi.
**Nel Pennant Jones a Gwernan Brooks**

**Gallwch wrando ar y cyfweliad yn ei gyfanrwydd ar wefan BroWyddfa.360.cymru**

# Cwt yr Hers

Gan fod Mynwent Betws Garmon bellter ffordd o bentref y Waun, defnyddiwyd elorgerbyd, (Hers) yn cael ei thywys gan ddau geffyl cyfochrog a'i gilydd i gludo arch yr ymadawedig i'r fynwent ar gyfer ei gladdu.

Rhoddwyd cyfle i holl ben-teuluoedd Waunfawr gyfrannu taliad o bum swllt, (coron) tuag at y gost o brynu'r elorgerbyd ac adeilad i'w gadw. Byddai'r taliad o bum swllt yn rhoi'r hawl iddo ef â'i deulu ddefnyddio'r elorgerbyd ar gyfer yr angladd.

Cedwid yr elorgerbyd mewn hen adeilad cerrig ar gyrion y Waun, un a'i hadwaenid yn lleol fel, 'Cwt yr Hers'. Saif Cwt yr Hers, sy'n dal ar y safle hyd heddiw, ar ddarn o dir nad oedd yn perthyn i neb. 'Tir Neb' fel y'i gelwid.

Ar ddiwrnod yr angladd, byddai perchenogion ceffylau yn yr ardal yn rhoi eu benthyg i dywysu'r elorgerbyd i'r fynwent.

Credir y bu dwy hers yn yr ardal ar un cyfnod, a'r trigolion lleol yn cyfrannu hanner coron ychwanegol i dalu am yr ail gerbyd.

Clywais fy mam yn sôn fel roedd hi'n cofio pryd ddefnyddiwyd yr elorgerbyd am y tro olaf. Dynes o'r Waun oedd yr olaf i'w chario yn yr hers, sef nain y ddiweddar Jennie May Williams, Ael-y-Bryn. Hyn mae'n debyg oddeutu 1932-33. Yn anffodus, ni wyddaf beth oedd ei henw.

Cofiaf fel byddem ni'r plant erstalwm yn mynd at gwt yr hers a sbecian drwy'r holltau yn estyll y ddau ddrws i gael cip olwg ar yr hen gerbyd. Cofiaf hefyd weld ffilm 'The Magnificent Seven' yn y Majestic, a Yul Brunner yn gyrru hers tebyg i'r un yn y Waun, yn cludo arch 'Red Indian' fyny'r allt serth i'r fynwent Boot Hill.

Dyfyniad o Gylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys M.C. Cymru. Cyf. XV Rhifyn 2, a gofnodwyd gan y diweddar William Vaughan Jones, (Wil Fôn) yn ei gyfrol, Yr Hen Waun.

**Defodau Claddu**

Pan ddigwyddai rhywun farw mewn teulu, byddai un tlawd a ddewisai'r teulu yn cael ffafr o dderbyn y gardod ddedwydd honno – sef y ddiodles.

Y dull o'r roddi i'r tlawd oedd fel hyn:

Anfonai'r teulu gwpan at wneuthurwr yr arch i'w lliwio yn ôl lliw'r arch, (dau liw a arferid ar eirch y pryd hynny – lliw du ar eirch rhai wedi priodi, a lliw gwyn ar eirch y rhai sengl) a phan ddeuai dydd y gladdedigaeth a'r corff wedi ei roi ar yr elor, cyflwynai pennaeth y tŷ yr elusen goel grefyddol i'r tlawd – sef torth fawr o fara da, darn o gaws efo darn o arian yn blanedig yn y caws, llond y gwpan liwiedig o gwrw neu laeth a'i hestyn dros y corff i'r tlawd. Hwnnw yn bendithio ac yn gweddïo'n ddwys dros enaid y marw.

Arferai'r holl deulu, y Sul cyntaf ar ôl y claddu, fynd ar eu gliniau ar y bedd pob un i ddweud ei bader a dweud yn ddefosiynol iawn, "Nefoedd iddo".

**Gwilym Morris Jones**

# Grantiau i helpu myfyrwyr bro'r Eco

Mae Cronfa Goffa RH. Owen (y diweddar Gynghorydd Robert Hugh Owen, Llanberis) wedi dyfarnu grantiau bychain yn flynyddol i fyfyrwyr y fro hon ers 1974.

Cynigir grantiau bychain i helpu myfyrwyr i ddilyn cyrsiau academaidd a galwedigaethol mewn prifysgol a choleg. Mae'r grantiau bychain wedi galluogi myfyrwyr er enghraifft i brynu llyfrau neu offer ar gyfer eu cyrsiau. Mae'r Gronfa'n caniatáu i fyfyriwr ymgeisio am grant dair gwaith. Yn naturiol, mae'r arian a ddyfernir yn dibynnu ar ddau beth: nifer yr ymgeiswyr a faint o arian sydd ar gael unrhyw flwyddyn.

Er mai yn Llanberis y sefydlwyd y Gronfa, nid yw'n gyfyngedig i'r pentref. O'r cychwyn cyntaf, bu'r grantiau ar gael i unrhyw fyfyriwr a fu'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, ble bynnag y mae'n byw. Oherwydd y cysylltiad gwreiddiol â Llanberis, mae'r Gronfa hefyd yn caniatáu ceisiadau oddi wrth bobl ifanc dan 25 mlwydd oed a aned yn Llanberis neu sydd â'u rhieni wedi byw yn Llanberis ers o leiaf pum mlynedd.

Daw'r arian ar gyfer y grantiau o'r llogau a geir ar yr arian a fuddsoddwyd gan y Gronfa. Fel pob elusen a phob buddsoddwr arall mae'r Gronfa wedi gweld gostyngiad sylweddol i'w llogau dros y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd hynny, mae Ymddiriedolwyr y Gronfa'n ddiolchgar am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd o bryd i'w gilydd, yn cynnwys rhoddion oddi wrth Y Ganolfan yn Llanberis a rhai o Gynghorau Cymuned dalgylch y Gronfa. Mae'r rhoddion hynny wedi bod o help wrth i'r llogau leihau, ac yn naturiol byddai Ymddiriedolwyr y Gronfa'n ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau pellach.

Gwahoddir disgyblion Blwyddyn 11 ac uwch, a chyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail i wneud cais am gymorth o'r Gronfa trwy lenwi a dychwelyd y ffurflen gais erbyn 30ain Medi 2021. Cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gronfa, Heather Jones, i gael y ffurflen gais: heatherjones37@aol.com neu 07867 982518.

## Cronfa Goffa R. H. Owen

Grantiau bychain ar gyfer myfyrwyr mewn prifysgol a choleg.

Gwahoddir ceisiadau am gymorth o'r Gronfa hon oddi wrth gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail erbyn **Medi 30 2021**.

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gronfa, Heather Jones, trwy e-bost neu ffôn:

**heatherjones37@aol.com / 07867 982518**

# Dileu dirwyon ar lyfrau hwyr o Lyfrgelloedd Gwynedd

Newyddion da i'r rhai hynny ohonom sydd ychydig bach yn anghofus neu'n gadael pethau tan y munud diwetha' - mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu peidio codi tâl am lyfrau a ddychwelir yn hwyr i lyfrgelloedd y sir.

Yn ystod pandemig Covid-19, cymerwyd penderfyniad i ymestyn dyddiadau dychwelyd yn awtomatig, a olygai nad oedd llyfrau byth yn hwyr. Ers 1af Ebrill 2021 mae'r penderfyniad yn un parhaol.

Mae dirwyon ar lyfrau plant a phobl ifanc dan 18 oed wedi eu hatal yng Ngwynedd ers nifer o flynyddoedd. Cyflwynwyd y drefn gan fod teimlad bod dirwyon yn rhwystr sy'n atal pobl ifanc a theuluoedd rhag defnyddio'r llyfrgell - mae'r un egwyddor bellach yn weithredol ar gyfer llyfrau hwyr a ddychwelir gan oedolion.

Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi atal dirwyon yn llwyr ers Ionawr 2019, ac mae o leiaf 15 Awdurdod Llyfrgell ym Mhrydain wedi atal dirwyon o fewn y blynyddoedd diwethaf. Bydd Gwynedd ymhlith yr ychydig Awdurdodau Llyfrgell yng Nghymru i wneud i ffwrdd â dirwyon.

Bydd unrhyw ddirwyon presennol ar gyfrifon defnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd bellach yn cael eu dileu, gan roi llechen lan i bawb ymweld â'u llyfrgell pan fydd trefniadau presennol o adnewyddu awtomatig wedi dod i ben, a'r cyfnod benthyg penodol yn cael ei adfer.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn pwysleisio bod angen i ddefnyddwyr eu cynorthwyo drwy ddychwelyd eu llyfrau o fewn amser rhesymol. Er na fydd dirwy dan y drefn newydd, bydd disgwyl i ddefnyddwyr ddychwelyd llyfrau o fewn 12 wythnos i'r dyddiad dychwelyd cyn cael nodyn yn gofyn iddynt ddychwelyd eu llyfr, neu dalu amdano.

Gall unrhyw un gadw golwg ar eu cyfrif llyfrgell trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell a mewngofnodi gyda'u rhif cerdyn aelodaeth a'u PIN.

# Trafferthion Teithio

**Cylchdroi i nunlle**

I'r rhai craff yn eich plith, efallai y cofiwch i'r Eco fynd i holi yn ôl ym mis Mawrth beth oedd hanes y gwaith lôn ar gyffordd yr A4086 ger Cwm-y-Glo a Brynrefail. Y stori bryd hynny oedd bod y gwaith i fod i'w orffen erbyn diwedd mis Mawrth. A hithau bellach bron yn ddiwedd Mehefin, gallwn gadarnhau mai'r amcangyfrif diweddaraf ydi y bydd y gwaith wedi ei orffen erbyn… diwedd Gorffennaf!

Mae'n debyg bod y gwaith i fod i wella llif y traffig a diogelwch y lôn, gwella problemau draeniad a chladdu ceblau. Rhan bwysig arall o'r cynllun newydd yw creu llwybr cerdded a beicio a fydd yn rhedeg gyfochr â'r lôn, er mwyn ymestyn y llwybr o Lanberis sy'n cyrraedd cyn belled â Brynrefail ar hyn o bryd.

Mae'r oedi wedi digwydd yn bennaf oherwydd materion technegol yn codi o'r angen i symud lleoliad y pibellau dŵr ar gyfer adeiladu'r cylchdro, gyda Dŵr Cymru wedi ei chael hi'n anodd i raglennu'r gwaith ychwanegol.

Dywedodd y Cynghorydd Berwyn Jones (Cwm-y-Glo) "Tra yn siomedig bod oediad wedi bod i'r rhaglen waith, rwyf yn croesawu'r gwelliant pwysig hwn, gyda'r gobaith y gall y contractwyr yn awr weithio gyda'i gilydd i orffen y gwaith cyn gynted a bo modd".

Y broblem ddiweddaraf yw bod rhai cerbydau wedi trio ffeindio llwybrau cyflymach ac wedi mentro dros ben Clegir. Ia, gallwch ddyfalu'r trafferthion a fu, gyda difrod wedi ei achosi gan ambell i lorri esgeulus (mae'n debyg!). Mae'n siŵr mai'r SatNav gafodd y bai! Dyma'r rheswm pam fod arwyddion ffordd mawr melyn bellach naill ben i'r ffordd yn Llanrug a Llanberis yn nodi mai mynediad i breswylwyr yn unig a ganiateir.



Gyda'r nifer gynyddol o ymwelwyr yn chwyddo'r niferoedd o geir ar y ffordd, dymunwn y gorau i bob un o'r contractwyr sy'n ymwneud â'r gwaith gan groesi popeth y daw terfyn buan – cyn i'r ysgolion dorri am wyliau'r haf fyddai'n ddelfrydol!

**Llwybrau Beics**

Agwedd o'r gwaith ar y gylchfan ym Mrynrefail yw ymestyn y llwybr cerdded a beicio presennol. Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau £3.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o annog mwy o bobl i adael eu ceir gartref a cherdded neu feicio er budd eu lles personol a'r amgylchedd. Mae'r gwaith i ymestyn llwybrau Llanberis i Gaernarfon a Bethel i Gaernarfon yn cael ei ariannu gan ddefnyddio'r gronfa hon.

Y bwriad ydi sicrhau llwybr diogel fydd yn rhedeg gyfochr â ffordd yr A4086 – boed hynny ar droed neu wrth feicio. Mae'r cynllun yma wedi ei rannu yn bedair gwedd, gyda'r llwybr rhwng pentrefi Cwm-y-Glo a Llanrug a rhwng Llanberis a Brynrefail wedi eu cwblhau.

Unwaith y bydd y gwaith ar gylchfan Cwm-y-Glo wedi ei gwblhau, y cam nesaf fydd creu llwybr newydd i gysylltu Llanrug a Chaernarfon. Mae gwaith ymchwil cychwynnol wedi ei gynnal, ond mae'r Cyngor yn dweud fod hwn yn sicr o fod yn sialens a bydd angen cwblhau gwaith pellach cyn gallu cychwyn ar y gwaith o ddatblygu'r llwybr ei hun.

Mae pethau'n symud yn gyflymach gyda'r gwaith ym Methel. Mae'r gwaith o adeiladu'r rhan gyntaf y cynllun wedi cychwyn, gyda chwmni SJ & S Williams wedi eu penodi i adeiladu llwybr rhwng Bethel a'r ffordd osgoi newydd. Y bwriad ydi y bydd y gwaith yma wedi ei orffen a'r llwybr newydd ar agor i gerddwyr a beicwyr erbyn yr haf.

Yna, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar waith paratoi ar ail ran y cynllun rhwng y ffordd osgoi a Chaernarfon. Mae peth gwaith i'w gyflawni cyn y bydd modd dechrau ar y gwaith, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd modd cychwyn ar y gwaith yn y dyfodol agos.

Yn y cyfamser, mae trigolion Bethel eisoes yn gwneud eu rhan i wella'r amgylchedd lleol, felly trowch i ddarllen newyddion Ysgol Bethel i weld sut mae'r disgyblion yn creu dyfodol i fyd natur.


E. W. PRITCHARD
*Trefnwyr Angladdau*
CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202



ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com


## DINORWIG

**Mynwent Macpela, Deiniolen**

Ddiwedd Mai bûm yn y fynwent i osod blodau ar fedd fy rhieni. Roedd yn bnawn braf, a balch oeddwn o weld y fynwent yn edrych yn arbennig o dwt a thaclus. Yn amlwg, roedd gweithwyr Cyngor Gwynedd wedi bod yno'n ddiweddar, ac o ystyried fod Sul y Blodau newydd fod, roedd yr holl fynwent yn edrych yn wych. Llawer o ddiolch i'r gweithwyr rheini am roi sylw dyladwy i'r gwaith er mwyn dangos parch i deuluoedd y rhai sydd a'u hanwyliaid yn gorffwys yma.

**Cae Chware Bro Elidir**

Dro'n ôl bûm yn cwyno ar ran rhieni, a'u plant yn methu defnyddio'r cae chwarae oherwydd ei gyflwr. Bellach, mae'r holl gae wedi ei glirio, a'r danadl poethion a'r mieri wedi diflannu. Gall yr hen blantos fwynhau chwarae ar y cae erbyn hyn yn hytrach nag ar y ffordd. Mae'n welliant hefyd i drigolion Bro Elidir a fu'n gorfod wynebu'r gor-dyfiant o flaen eu cartrefi. Llawer o ddiolch i Gyngor Gwynedd am gwblhau'r gwaith.

**Cofion**

Â'r tywydd wedi gwella, a'r haf ar ein gwarthaf, anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd yn gaeth i'w cartref neu mewn cartref henoed. Mae eraill yn gwella wedi salwch, a gobeithio y daw'r haf i roi pleser i chi a llwyr wellhad.

**Capel a chanu**

Tybed pryd y cawn ganu a chapel unwaith eto? Wedi dweud hynny, rhaid cyfaddef mai'r radio sy'n cael y lle gorau yn y tŷ, a fydd y teledu ddim ymlaen ar y Sul gan fod rhaglenni Radio Cymru mor arbennig o dda o fore gwyn tan nos. Ar ôl te, setlo i lawr i wrando ar Dei Tomos a diweddu'r noson gyda rhaglen John ac Alun. Rhyngddynt, mwynhau'r Talwrn a Rhys Meirion – mae ei raglen yn gweddu i'r Sul, ac yntau'n hynod deimladwy. Gobeithio y pery'r rhaglen hon am gyfnod da o amser. Diolch yn fawr i bawb sydd yn gyfrifol am raglenni'r Sul. Hir y byddant yn parhau.


**Yr Allt Ddu a'i phroblemau**

Deallaf fod arwyddion newydd wedi eu gosod yma. Does ond gobeithio y bydd ymwelwyr yn talu sylw iddynt ac yn ufuddhau. Diolch i Gyngor Gwynedd a'r heddlu am wrando a gweithredu ar bryderon y trigolion lleol.

# Cofio gweinidog a ffrind

Am fwy nag un rheswm, gall cyfrol sydd newydd ei chyhoeddi i goffáu gweinidog cyfarwydd fod o ddiddordeb i lawer yn y fro hon.

Yn wreiddiol o Garrog, daethai'r Parchg Euros Wyn Jones yn weinidog i Langefni ym 1983 ac yno y bu'n byw hyd ei farwolaeth gwbl annisgwyl ddiwedd Tachwedd 2018. Ers 1992 roedd wedi bod yn hyfforddi pregethwyr a gweinidogion trwy Goleg yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Roedd yn bregethwr poblogaidd a deithiai i bob cwr o'r wlad i bregethu. Byddai'n ymweld yn gyson â chapeli bro'r Eco, a bydd llawer ohonoch yn cofio'i bregethu grymus.




Mae dwy o'i ferched, Gwenno a Lowri, yn byw yn Llanrug erbyn hyn. Hyd at ei farwolaeth, deuai Euros yn gyson i Lanrug, yn arbennig i warchod ei ŵyr cyntaf Lleu. Daethai'n wyneb cyfarwydd i lawer yn y pentref. Byddai wrth ei fodd yn cael paned a sgwrs yn 'siop Yncl Bryn', chwedl Lleu, ac wrth fynd am dro o amgylch y pentref byddai Euros yn ei elfen yn sgwrsio â hwn a'r llall.

Mae'r gyfrol *Cofio Euros* wedi ei golygu gan ei gyfaill – a thaid arall Lleu – y Parchg John Pritchard, Llanberis. Roedd Euros a John yn gyd-fyfyrwyr yng Ngholeg Bala-Bangor. Ceir yn y gyfrol, gan fwy nag ugain o gyfranwyr, atgofion o wahanol gyfnodau ym mywyd Euros ynghyd â gwerthfawrogiad o'i waith fel gweinidog yn Sir Gaerfyrddin a Sir Fôn ac fel athro a hyfforddwr.

Cyswllt lleol arall yw mai Gari Wyn, perchennog Ceir Cymru ym Methel a awgrymodd gyntaf i Lowri y dylid 'cael cyfrol i gofio dy dad'. Roedd hynny'n ddigon o ysgogiad i John fynd ati i baratoi'r gyfrol. Gwerthfawrogir yr ysgogiad cyntaf a'r nawdd ariannol a gafwyd i'r gyfrol gan Geir Cymru.

Cyhoeddir y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, a chaiff ei chyflwyno'n ffurfiol mewn cyfarfod Zoom am 8:00pm, nos Iau, 24ain Mehefin. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r cyfarfod. Anfonwch air at John (john.cilfynydd@btinternet.com) os ydych eisiau'r ddolen Zoom.

Gan mor eang oedd cylch cydnabod a meysydd gweinidogaeth Euros, hyderir y bydd croeso cynnes i'r gyfrol ddarllenadwy hon am un a wnaeth gyfraniad aruthrol i waith yr eglwysi ac i dystiolaeth yr Efengyl yng Nghymru dros gyfnod o ddeugain mlynedd a mwy.

# Wynebu'r Wifren Wib er budd Achub y Plant



I ba eithafion fyddech chi'n fodlon ei fynd i godi arian i elusen? Yn ystod Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr (1af-7fed Mehefin) fe fentrodd rhai o gefnogwyr Achub y Plant i lawr wifren wib gyflymaf y byd yn Zip World, Chwarel y Penrhyn a llwyddo i godi dros £13,000 ar gyfer yr achos.

Ers dyddiau cynnar y pandemig mae Achub y Plant wedi cefnogi bron i 12 miliwn o blant, gan addasu a chynyddu eu rhaglenni fel y gall plant barhau i fod yn ddiogel, i gadw'n saff ac i gael eu haddysgu. Mae plant yma yng Nghymru hefyd wedi eu heffeithio gan y pandemig ac mae'r elusen wedi bod yn cynnig grantiau argyfwng i deuluoedd yn cynnwys talebau bwyd, hanfodion ar gyfer y cartref a gliniaduron a thabledi er mwyn hwyluso gyda'u gwaith ysgol.

Ymhlith y criw dewr a ddaeth at ei gilydd o bob cwr o Gymru roedd Eurgain Haf, yn wreiddiol o Benisarwaun ac sydd erbyn hyn yn byw ym Mhontypridd ac yn gweithio fel Rheolwr y Wasg i Achub y Plant.

Roedd Eurgain yn awyddus i wynebu'r her er mwyn cefnogi gwirfoddolwyr yr elusen a dangos ei gwerthfawrogiad am eu gwaith anhygoel. Roedd ganddi hefyd resymau personol dros gymryd y fath naid.

"Roedd Taid Rhiwlas a fy nghyn-deidiau yn arfer gweithio yn Chwarel y Penrhyn, felly falla fod hynny wedi bod yn dynfa. Er dydw i ddim yn siŵr be fyddai Taid wedi ei wneud o'r holl beth, yn enwedig o ystyried fy mod i wedi gwibio hyd y wifren filltir o hyd ar gyflymder o dros gan milltir yr awr! Roedd yn brofiad anhygoel a'r golygfeydd o'r fath uchder yn cipio fy anadl, yn llythrennol.




"Fel aelod o staff Achub y Plant ro'n i hefyd eisiau ymuno â'n gwirfoddolwyr yn yr her i ddiolch iddyn nhw am yr holl waith anhygoel maen nhw yn ei wneud i gefnogi ein prosiectau. Hebddyn nhw ni fyddai'r elusen yn gallu gweithredu, a thros gyfnod y pandemig maen nhw wedi parhau i feddwl am syniadau dyfeisgar i godi pres.

"Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi fy noddi i wneud yr her."

Fe ymunodd camerau rhaglen S4C *Heno* gyda'r criw ar y diwrnod hefyd ac yn ffodus iawn i'r cyflwynydd Owain Tudur Jones o Landdeiniolen, roedd lle i un dyn bach arall ymuno hefo nhw!

Os hoffech gyfrannu at Her Tîm Zip Achub y Plant mae dal cyfle i chi wneud hynny drwy eu tudalen Just Giving www.justgiving.com/team/World

# Ysgol Gwaun Gynfi


**Bingo**
Disgyblion Cyfnod Sylfaen yn mwynhau gêm o Bingo er mwyn codi arian i gael anifeiliaid anwes yn yr ysgol.







Un o flaenoriaethau'r plant ydi cael anifeiliaid anwes i'r ysgol. Fel y gwyddoch mai Lili'r ci yma gyda ni yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae hi'n helpu rhai plant i deimlo'n gartrefol , helpu pan fo rhywun yn teimlo'n drist a hefyd yn mwynhau gwrando ar stori. Mae pawb yn hoffi gweld Lili yn yr ysgol.




Wedi i sawl aelod o staff yr ysgol ymweld ag ysgol San Siôr, Llandudno, maent wedi derbyn hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gael mwy o anifeiliaid i ddatblygu lles disgyblion.

Edrychwch allan mis nesaf, cewch gyfarfod un neu ddau o'r anifeiliaid newydd!

**Diolch yn fawr i Fantell Gwynedd**
Gwnaed cais llwyddiannus am grant gan Fantell Gwynedd i greu ardal hyfryd i'r plant Cyfnod Sylfaen fwynhau darllen a chwarae trwy ddysgu.







**Cais am grant Cymunedol**
Ewch i'n cyfrif Twitter @Gwaungynfi neu edrychwch allan ar Facebook Grŵp Cymunedol Deiniolen. Rhannwch y linc sydd ar y dudalen gyda'ch ffrindiau a'ch teulu.




Mae'r ysgol yn ceisio datblygu'r ardd a'r ardal tu allan ar gyfer yr ysgol a'r gymuned.

Wrth i chi hoffi'r dudalen a'i rannu bydd ein cais yn derbyn pwynt. Os ydi rhywun yn teimlo'n garedig ac eisiau gwneud cyfraniad, mae modd gwneud hynny hefyd. Ewch i wylio'r fideo i chi weld beth yw gweledigaeth disgyblion Gwaun Gynfi.

**Rownd derfynol genedlaethol Cwis Dim Clem**
Llongyfarchiadau mawr i dîm Ysgol Gwaun Gynfi ar ennill yn rownd sirol y cwis sy'n cael ei gynnal gan y Mentrau Iaith. Pob lwc iddynt yn y rownd derfynol ar draws Cymru.




## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9.30am.

Hefyd, mae gwasanaeth bob bore Mawrth am 11.00am, yna yn dilyn y gwasanaeth hwn bydd yr eglwys ar agor tan 4.00pm ar gyfer ymweld neu weddi breifat a hefyd derbyn nwyddau tuag at Fanc Bwyd Arfon.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG



**Eglwys Sant Padarn**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11.00am. Mae croeso hefyd i bawb ymuno â'r gwasanaethau Zoom a gynhelir bob nos Sul am 6.00pm a bore Mercher am 10.00am. Cysylltwch â'r Parch Allan Wilcox ar afcwilcox@gmail.com er mwyn derbyn y cyfrinair. Bydd yr Eglwys ar agor bob dydd Mawrth rhwng 1.00pm a 3.00pm er mwyn derbyn nwyddau tuag at Fanc Bwyd Arfon.

Enillwyr Clwb 100 mis Mai oedd 1) Helen Sharp 2) Hugh Griffith 3) Mr a Mrs S Owen 4) Anne Williams 5) Cyril Jones

Os hoffai unrhyw un ymuno â'r Clwb 100, cysylltwch â Linda Williams ar 07775 501416 neu Ellen Hughes ar 01286 671768.

**Dathlu Penblwydd arbennig yn 100 oed**
Ar y 6ed Gorffennaf bydd un o drigolion Plas Pengwaith, sef Mrs Margaret Hughes, yn dathlu penblwydd arbennig iawn yn 100 oed. Trowch at newyddion pentref Bethel i gael darllen mwy, ond mae'n amlwg iawn bod llawer iawn o deulu a ffrindiau yn meddwl y byd ohonoch ac yn dymuno'r gorau i chi ar y 'diwrnod mawr'.



**Cais am Wybodaeth**
Ers nifer o flynyddoedd, rwyf wedi bod yn casglu hen gardiau post (*postcards*) o ardal Eco'r Wyddfa. Fel arfer, does dim problem penderfynu lle yn union sy'n cael ei bortreadu gan y cerdyn ond, weithiau, mae rhai golygfeydd wedi profi'n amhosib i mi fedru eu lleoli!

Un a fu'n achosi penbleth i mi ers rhai blynyddoedd yw lleoliad y bwthyn yn yr olygfa hon. Fe dynnwyd llun yr olygfa gan Robert John, Alexandria House (y siop bapur drws nesaf i Siop Bon Marche, Llanberis). Does dim ar glawr nac ar gefn y cerdyn i fedru lleoli'r bwthyn.

Er bod y mwyafrif o gardiau post yn cael eu gwerthu i'r farchnad ymwelwyr, roedd y tynnwr weithiau yn defnyddio cardiau post blanc i greu darluniau teuluoedd, ysgol neu ddigwyddiad pentrefol a'u gwerthu i'r gymdeithas leol.

Y syniad sydd gennyf yw fod y cerdyn yma wedi ei anelu at deulu o fewn yr ardal yma a fod llun cyffelyb tu mewn i 'albwm teulu' un o ddarllenwyr yr *Eco*.

Os oes lleoliad a, gobeithio, enw'r gŵr bonheddig sydd yn y llun cerdyn post, gennych, cysylltwch – gweler Gohebwyr Pentref ar dudalen 2.

# Pentref Taclus Llanberis


**(diolch i Eric Baylis am y lluniau)**



Mainc "plant swop" yn yr ardd gymunedol ym Meddygfa Llanberis gyda diolch i Menter Fachwen am y rhodd o'r fainc.



Giat Parc Bach ger Afon Hwch wedi ei addysu er mwyn i olwyn cadair ayb fedru mynd i mewn i'r ardd.



Giat yr ardd gymunedol yn Meddygfa Llanberis wedi ei pheintio er mwyn i waith gwych Dylan Cadwalader Parry sefyll allan i bawb ei weld.





Y Meinciau yn Parc Bach wedi eu peintio.





Y chwyn a mwsog wedi ei glirio oddi ar y blociau yn Parc Bach.

ECO'r Wyddfa

# Ar ben arall i'r lein

Tydi amser yn hedfan! Rwy'n crafu fy mhen wrth feddwl ble mae'r mis diwethaf wedi mynd, yn enwedig pan fydd e-bost yn dod i'm hatgoffa fod yr Eco'n galw unwaith eto. Roeddwn yn tybio nad oedd llawer mwy nag wythnos ers yr erthygl ddiwethaf. Fel mae'r amser yn mynd heibio, mi fyddaf mewn difri'n cysidro i ble rydym yn mynd a beth yw dyfodol pysgota yn y fro. Mae'n mynd yn fwyfwy cymhleth i gynnal pethau, gyda'r holl asiantaethau sydd wedi eu creu gan y Llywodraeth yn galw am fwy a mwy o reolau i'w cadw. Ond mewn difrif, creu er mwyn creu y mae'r rhan fwyaf o'r rhain, ac ar ddiwedd y dydd does neb yn cyflawni dim. Un enghraifft dda ydi Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sefydliadau sydd ynghlwm wrtho. Faint o weithiau mae rhywun yn clywed ar y radio a'r teledu am y ffordd y mae adnewyddu cynefinoedd, glanhau ein dyfroedd a gwarchod natur yn cael blaenoriaeth? Ydi, mae'n ymddangos yn ganmoladwy dros ben; ond y cam cyntaf er sicrhau hyn i gyd yw bod staff ar gael i weithredu'r freuddwyd. Wel, cyn belled ag y mae pysgota yn y cwestiwn, mae'r freuddwyd yn cael ei chwalu'n rhacs.

Un enghraifft dda o hyn ydi cipera. Os am sicrhau gwarchodaeth, rhaid cael traed ar y ddaear a chadw llygad ar be sy'n mynd ymlaen. Nid yn unig atal potsio a wnai ciperiaid; roedd eu dyletswyddau'n cynnwys cadw llygaid ar agor am lygredd, nid yn unig ar ein hafonydd mewndirol ond ar y traethau hefyd. Roedd ganddynt lygaid am bob math o faterion a allai achosi niwed i'r amgylchedd a thor cyfraith. Yn ogystal, roeddent yn wynebau cyfarwydd i bysgotwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dyma'r cysylltiad cyhoeddus gorau y gall unrhyw gyflogwr ofyn amdano. Flynyddoedd yn ôl, roedd chwech o giperiaid yn goruchwylio gogledd Gwynedd ac roeddwn yn adnabod pob un ohonynt. Heddiw, gyda'r holl ail drefnu, cwtogi ariannol a pheidio ag ail lenwi swyddi, mae'r hen griw wedi mynd i gyd, a does gennym fel Cymdeithas Bysgota syniad pwy – os rhywun – sy'n gwarchod ein dyfroedd. Dydw i ddim am ymhelaethu ar hyn, ond os gallwch gael gafael ar lyfryn y diweddar gyn gipar Edgar Owen *O Botsiar i Gipar,* mae'n werth ei ddarllen er mwyn sylweddoli beth sydd wedi ei golli.



Rhwyd o dorgoch o Lyn Padarn cyn y gwaith adeiladu



Brithyll yr enfys i Goronwy Roberts, Llanrug, ar Lyn y Dywarchen



Gwyniedyn 6-phwys Adam Burton

Mater sydd wedi cael tipyn o sylw ydi'r bwriad o gael llwybr beics o Fethel i Lanrug. Cyn belled ag y mae'r Gymdeithas Bysgota yn y cwestiwn, mae'n bosibl y byddai wedi bod yn dda o beth pe byddai'r rhai sy'n cynnig y cynllun wedi trafod gyda'r Gymdeithas, yn enwedig pan yw'n fwriad yn ôl pob golwg i ddefnyddio rhannau o dir y Gymdeithas.

O droi at y pysgota, daeth tipyn o newydd da'n ymwneud â'r bwriad i adnewyddu mannau bwrw grawn y torgoch yn Afon y Bala. Mae Cwmni First Hydro wedi datgan wrth yr Ymddiriedolaeth Afonydd y bydd y gwaith yma'n cael ei wneud yn ystod Medi eleni. Gobeithio bydd yn cadw at ei air, gan fod addewidion o'r fath wedi eu gwneud i'r Gymdeithas yn gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ond i'r rhai sy'n ymddiddori yn y torgoch, atodaf lun sy'n dangos faint o dorgoch oedd o gwmpas y lle, cyn cyfnod adeiladu'r orsaf gynhyrchu trydan. Un a fu'n gweithio gyda'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog yn astudio'r pysgodyn hyfryd hwn oedd y diweddar Dr Alistair Rodgers. Buom yn eithriadol ffodus o gael nifer o luniau yn ymwneud â'i waith gyda'r torgoch. Mae'n siwr mai dyma'r unig luniau o'i waith sydd wedi goroesi. Mae ein diolch yn fawr i Gwen Jones, Llanrug am lun o Dr Rodgers, i'w roi gyda'r hanes.



Pluen wreiddiol Freddie Bee

Bu hir ddisgwyl am y stocio cyntaf i'r Dywarchen. Ar 10fed Mai, gwelwyd stoc hyfryd iawn yn cyrraedd o Ddeorfa Trawsfynydd. Roedd yn ddiwrnod heulog braf. Felly y bu hi wedyn am dros wythnos, gyda dim ond yr haul yn tywynnu. Wrth gwrs, dydi tywydd braf yn dda i ddim i 'sgota. Fodd bynnag, ers i'r tywydd droi mae'r pysgota wedi bod yn dda. Yn ôl a ddeallaf, y prif 'sgotwr – medda fo – ydi Goronwy Roberts o Lanrug, sydd wedi bod wrthi'n ddygn, a'i ymdrech wedi ei gwobrwyo gyda nifer o frithyll yr enfys arbennig, fel y ddau a welir yn y llun. Mae'n amlwg fod rhai padelli ym mhentref Llanrug yn cael defnydd go aml. Dal ati, Goron.

Mae'r Dywarchen yn llecyn eithriadol o hyfryd – dal neu beidio, mae'n werth cael rhyw orig fechan yn y cwch. Ydi, mae'n lle hudolus, ac nid syndod os daw'r gynghanedd neu'r Tylwyth Teg atoch. Nid yn unig 'sgotwrs sy'n mwynhau'r lle. Yn ddiweddar, yn enwedig yn ystod dyddiau'r Covid-19 'ma, mae rhai'n hoffi nofio yno, a rhai wedi bod yn gwersylla ar yr ynys hefyd. Does dim llonydd i'w gael yn unlle, nag oes! Mae'n bosib y byddai'n beth call i ni roi rhybudd wrth y fynedfa, i dynnu sylw'r nofwyr fod perygl mawr iddynt gael eu bachu! Braidd yn rhy fawr i'r badell dybiwn i!

Rhyw fyny ac i lawr ydi pethau wedi bod ar yr afonydd: dim dŵr neu ormod ohono. Wel, dyma'r esgusodion dwi'n eu clywed o amgylch y lle. Ond chaiff dim ei ddal heb fynd allan a rhoi cynnig arni. Felly y bu gydag un o'n haelodau ifanc, sef Adam Burton o Gaernarfon. Mae wedi bod wrthi'n ddygn gyda'r nos ac wedi dangos i bawb ohonom be' sy'n bosib. Ei wobr yw gwyniedun 6-phwys a nifer eraill rhwng pedwar a dau bwys. Mae hefyd wedi bod yn cael hwyl arni mewn llefydd fel Clywedog: felly, dalier ati. Roeddwn yn clywed hefyd ei fod yn gawiwr da, gobeithio y gwnaiff ddilyn rhai o'r hen feistri o Gaernarfon gyda'u plu arbennig. Mae gennyf un o blu gwreiddiol Freddie Bee, a'r hyn sy'n tynnu eich sylw yw'r cyfuniad o liwiau – sef coch, melyn, du , gwyn ac arian neu aur. Dyma'r union liwiau sy'n cael eu defnyddio ar blu modern fel y *'Cascade'.* Mae'r union liwiau hyn wedi eu defnyddio ar y Seiont ers dros ganrif, ac mae dyddiadur Robert Thomas yn dyst o hyn.

Fel y mae Adam wedi profi, mae rhediad da o wyniadau mawr wedi cymryd yr afon. Hefyd, mae'r rhagolygon yn dda, gan fod, o'r diwedd, nifer mawr i weld yn dangos eu hunain yn y Fenai. Mae criwiau 'sgota môr yn cael hwyl arni gyda physgod hyd at 12 pwys. Mae'n anghyfreithlon i gadw eog neu wyniedyn sydd wedi eu dal mewn dŵr hallt, ond yn ôl y sôn, mae'r cyfan – wel, bron y cyfan – yn cael eu gollwng yn rhydd.

Y mis nesaf, ond fis yn hwyr, ceir gwybodaeth am ein gwaith adfer cynefinoedd.

**Huw Price Hughes**

# Ysgol Bethel

**Garddio**
Mae'n dymor tyfu yma yn Ysgol Bethel. Mae'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn hau, plannu paratoi gwlâu llysiau a dyfrio eu cynnyrch yn ddyddiol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n cymuned hael, gan ein bod wedi derbyn nifer o roddion i'n gardd yn ystod y tymor. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at brofi ffrwyth eu llafur gan gynaeafu eu cynnyrch ar ôl gwyliau'r haf. Yn y llun mae criw o'n gerddwyr fwyaf brwd: "Rydym ni gyd yn mwynhau garddio ac felly yn gwirfoddoli bob amser chwarae i gario pridd, dyfrio a thacluso. 'Da ni'n gobeithio gwerthu rhai o'r llysiau a choginio'r gweddill."

**Cyfarfod Casia Wiliam**
Ar 9fed Mehefin fe gafodd dosbarth Mr Parry gyfarfod rhithiol gyda'r awdures a'r bardd Casia Wiliam. Fe wrandawodd y disgyblion yn astud wrth i Casia Wiliam ddarllen o'i nofel newydd 'Sw Sara Mair'. Cafodd y disgyblion gyfle i holi'r awdur am ei gyrfa fel bardd ac awdur a'i ysbrydoliaeth i ysgrifennu. Yn ôl Lleucu "Roedd yn brofiad ysbrydoledig ac mae llawer o syniadau yn fy mhen ar y funud ar gyfer ysgrifennu stori ddiddorol, diolch i'r cyfarfod. Braf oedd gwrando ar awdur yn darllen ei gwaith gwreiddiol. Dwi'n edrych ymlaen at ddarllen ei llyfr."











**Lon Feicio newydd o Fethel i Gaernarfon**
Mae'n gyfnod hynod o gyffrous yn y pentref ar hyn o bryd gyda'r peirianwyr ffordd wrthi'n ddiwyd yn datblygu'r lon feics a fydd yn cysylltu Bethel â Chaernarfon ac yna gweddill Cymru. Bu disgyblion blwyddyn 3 wrthi'n brysur yn hau blodau gwyllt brodorol ar bridd a fydd yn croesawu beicwyr i Fethel. Yn ôl Lidia "Mae'r blodau am edrych yn hardd wrth i feicwyr ddod mewn i'r pentref ond yn bwysicach mi fydd y blodau gwyllt yn gartref ac yn fwyd i lawer o fywyd gwyllt.". Diolch enfawr i'r grwp 'Teithio Llesol Bethel' am ein cynnwys yn y datblygiad.











# Gwauncwmbrwynog

Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan Llanberis fore Gwener 28ain Mai i goffáu cysylltiad hanesyddol Gwilym Charles Williams, (un o feibion Llanberis ond sy'n byw yn Llandudno bellach) â Chapel Hebron Gwauncwmbrwynog.

Meddiannwyd y Cwm yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chyfansoddwyd y gerdd Gwaun Cwm Brwynog gan y Parchedig Brifardd R. Bryn Williams yn 1943 yn dilyn bedydd Gwilym Charles Williams o Lwyn Celyn ar 19eg Hydref 1942. Mae'r bardd, a oedd yn heddychwr mawr, yn siarad â'r baban i fynegi ei ddiflastod am yr hyn oedd yn digwydd yn y cwm. Adeiladwyd 'Rifle Range' union 50 llath o ddrws y capel. Gwilym Charles Williams oedd y 'baban gwyn' y cyfeirir ato yn y drydedd linell o bennill olaf y gerdd.

**Gwauncwmbrwynog**
Daeth deugain addolwr i'r capel llwm,
Rhai o'r gwastadedd a rhai o'r cwm;
Ac wrth dy fedyddio, faban gwyn,
Cofiais am wynfyd y llethrau hyn:
Tyddynnod bach a theios llawn,
A'r cymun Cymraeg wrth dân o fawn,
A gwerin dlawd yn byw'n gyfoethog
Yng Ngwauncwmbrwynog….

**R BRYN WILLIAMS 1943**

Mynychodd un o gyfoedion Gwilym, a fu hefyd yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn, y cyfarfod, sef Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) a gyfansoddodd y gerddoriaeth i'r gerdd 'Gwauncwmbrwynog', un o ganeuon poblogaidd Hogia'r Wyddfa. Roedd y Parch Jim Clarke, Robat Williams, Gwyndaf a Mair Huws, Maldwyn Peris Roberts, Meirion Jones, Glyn Tomos, Arwyn Jones, Alun Roberts a Tony Elliott hefyd yn y cyfarfod (er nad aeth pawb ar y daith i Wauncwmbrwynog). Cafwyd cyflwyniadau difyr yn y cyfarfod gan Alun Roberts, Gwilym Charles Williams, Ken Jones ac Arwel Jones.

Yn dilyn y cyfarfod, arweiniodd Ken Jones, Ysgrifennydd y Ganolfan, daith i fyny i Wauncwmbrwynog gan alw heibio nifer o safleoedd o ddiddordeb yn y pentref. Mae Ken yn hanesydd lleol o fri ac wedi gwneud gwaith arbennig yn y Ganolfan. Cafwyd cyfle i'r rhai oedd yn bresennol, i weld y murlun a osodwyd yn ddiweddar yn y Neuadd i gofio T. Rowland Hughes (gwelwyd llun o'r murlun hwn a'i hanes yn rhifyn diwethaf yr Eco).

Ar ôl gadael Ysgol Dolbadarn bu Gwilym yn amaethu yn Llwyn Celyn, cyn cael swydd fel trefnydd yr Urdd dros Sir Fôn a Sir Gaernarfon. Fo oedd trefnydd cyntaf yr Urdd yn Sir Gaernarfon, cyn dod yn swyddog gweinyddol efo'r Urdd yn Aberystwyth. Yn ddiweddarach penodwyd ef yn Swyddog y Gogledd efo'r Deillion.

Mab i Henry Charles Williams, ysgrifennydd Capel Hebron, yw Gwilym. Mynychodd Henry Charles y capel o'r crud ac fe'i bedyddiwyd yno. Cychwynnodd wasanaethu yn y capel yn y flwyddyn 1917 fel organydd ac fe'i hetholwyd yn flaenor yn y flwyddyn 1938. Cyfrannodd Henry Charles at yr achos yn Hebron am 54 o flynyddoedd ac ef oedd yr ysgrifennydd



Y cerddwyr wrth adfeilion y capel



Capel Hebron




Map o leoliad Capel Hebron



Ken Jones, Gwilym Charles Williams ac Arwel Jones o flaen murlun i goffau T. Rowland Hughes yng Nghanolfan Llanberis

yn 1958 pan gaewyd drysau Capel Hebron am y tro olaf. Dyma oedd yr hoelen olaf yn oes y capel a gadawodd y teulu diwethaf o'r Waun yn y flwyddyn 1959. Daeth Gwilym â llun o'i dad yn dal Beibl Capel Hebron efo fo i'r cyfarfod. Yn ogystal â'r gerdd a ddyfynnir ar ddechrau'r erthygl, cyfansoddodd R. Bryn Williams gerdd ar gyfer gwasanaeth cau'r capel, er nad oedd yn medru bod yn bresennol yn y cwrdd olaf. Caewyd Capel Hebron ar nos Lun 7fed Gorffennaf 1958, gyda'r gwasanaeth cau o dan ofal y Parchedig J. P. Davies. Cynhaliwyd y gwasanaeth y tu allan i'r adeilad gan fod y capel wedi ei gloi a doedd neb yn gwybod ymhle roedd yr allwedd ar y pryd.

Capel mwyaf anghysbell dyffryn Peris oedd Hebron, a leolwyd ar un o lethrau Gwauncwmbrwynog, yng nghysgod copa'r Wyddfa.

Dyma gyflwyniad William Hobley am hanes Capel Hebron yn ei lyfr 'Hanes Methodistiaid Arfon' 1901:

''Fe saif capel Hebron ar un o lethrau ysgithrog yr Wyddfa, mewn lle neilltuedig, sef Wauncwmbrwynog, mewn amgylchoedd rhamantus. Llecha Hebron dan adenydd y mynyddoedd. Delid yr oll o Gwmbrwynog ar un adeg gan yr un gŵr, ond y mae ers llawer blwyddyn bellach wedi ei rannu yn wahanol ffermydd a thyddynnod.

Lleolwyd y capel ar uchder o 900 o droedfeddi uwch y môr mewn man eithaf hwylus i holl drigolion y cwm gyda llwybrau'n arwain o bob fferm a thyddyn i ddrws y capel. Y brif broblem gyda'r lleoliad oedd iddo fod mewn man agored ac yn ddannedd gwyntoedd y gorllewin a oedd yn rhuo i fyny'r cwm o fôr yr Iwerydd – ar adegau. Y capel oedd yr unig gyrchfan yn y cwm ymhle roedd modd i'r holl drigolion gyfarfod a'i gilydd o dan yr un to."

Dyma englyn a gyfansoddwyd gan Mr Meirion Jones i gofio am y diwrnod:

Daw hanes yn gadwynog – i Hebron
ar lwybrau i annog
swyn a gawn, yn sain y gôg,
yn anian Gwauncwmbrwynog

Diolch yn fawr i bawb am eu cymorth wrth ysgrifennu'r erthygl, gan gydnabod yr wybodaeth a gafwyd o fewn cyfrol 'Hanes Methodistiaid Arfon 1901' gan William Hobley.

**Nesta Elliott**

# Ysgol Brynrefail

**Disgyblion Blwyddyn 7 yn mynychu gweithdy ar gyfer cyfres deledu newydd**
Ar ddydd Mercher, 9fed Mehefin daeth cwmni Boom Plant Cymru i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn 7. Roeddent yn chwilio am ddisgyblion ar gyfer cyfres newydd gyffrous o'r enw 'Gwrach y Rhibyn'. Cyfres antur ffantasi yw hon, fydd yn gofyn i'r cyfranwyr brofi eu sgiliau rhesymegol a chorfforol wrth iddynt geisio dod o hyd i loches ddiogel cyn diwedd y dydd. Ar hyd y ffordd mi fydd tîm o bedwar yn wynebu cyfres o sialensiau meddyliol megis datrys problemau, cyfeiriannu a heriau awyr agored. Cyffrous ta be?! Dyma luniau rhai o'r deunaw disgybl o Flwyddyn 7 a fu'n cymryd rhan yn y cyfweliadau.







**Disgyblion Blwyddyn 8 yn llunio sgriptiau**
Mae disgyblion Bwyddyn 8 wedi bod wrth eu bodd yn eu gwersi Cymraeg yn ddiweddar yn gweithio ar thema Chwaraeon a Chnapan a Bando. Dyma nhw wrthi'n brysur yn ffilmio'r gwaith wnaethon nhw ei sgriptio yn y gwersi.





**Prosiect Ffilm Seiont**
Mae criw brwdfrydig o ddisgyblion blynyddoedd 12 a 13 yn rhan o Brosiect Ffilm Seiont. Y nod yw ysbrydoli cyfarwyddwyr, technegwyr a chynhyrchwyr y dyfodol. Dros wyliau'r hanner tymor cawsant brofiadau hynod werthfawr yng nghwmni Elis Roberts – dyn camera proffesiynol a thechnegydd sain – Rhodri Williams, sydd hefyd yn gyn-ddisgybl. Mae'r disgyblion yn gweithio ar ddwy raglen – y naill wedi'i hanimeiddio a'r llall ar ffurf rhaglen ddogfen. Byddant yn cael eu lansio yng Ngŵyl Ffilm Caeredin fis Tachwedd. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth eu llafur!









**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Erin Morris Williams am ennill llefaru blynyddoedd 7, 8 a 9 yn Eisteddfod T.

**Disgyblion Blwyddyn 13 yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol**

Ar ddiwedd yr hanner tymor sydd newydd fod – dydd Gwener, 28ain Mai roedd hi'n amser i ni ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 13. Cawsom gyfle i wneud hynny mewn ffordd braf iawn ar amser cinio yn y neuadd. Daeth y staff a'r disgyblion ynghyd i gael cinio hefo'i gilydd a chyfle i hel atgofion am saith mlynedd brysur a chofiadwy yn yr ysgol i'r disgyblion.

Yn ôl traddodiad cafwyd areithiau gan y Pennaeth Mrs Ellen Williams a'r Prif-ddisgyblion – Anest Edwards, Andrew Hughes ac Eleri Jones.

**Dyma i chi flas o araith Anest:**

'Dwi'n ymwybodol mai dim ond am y ddwy flynedd ddiwethaf dwi wedi bod yma, a hynny fwy na thebyg yn debycach i flwyddyn o ystyried yr hinsawdd bresennol.

Ond, dwi'n cofio sylwi cyn symud yma fod 'na rhywbeth am ddisgyblion Brynrefail, eu bod yn falch iawn o gael dweud o ba ysgol maen nhw. O'n i'n meddwl i ddechrau, wel chwarae teg, mae hi'n ysgol dda tydi. Ond unwaith wnes i symud yma ar ddechrau blwyddyn 12 dwi'n meddwl mod i wedi dod i ddeall pam ein bod ni'n ymfalchïo gymaint yn ein hysgol. Rydym yn ymfalchïo am ein bod yn un o 'blant Brynrefs' ac mae Brynrefs yn fwy na dim ond ysgol. Mae hi'n gymuned sy'n estyn croeso i bawb wneud ffrindiau oes ac atgofion i'w trysori, ac ar ran pob un ohonom wnaeth symud yma'n hwyrach ymlaen yn ein gyrfa ysgol, allai ddim pwysleisio pa mor braf ac unigryw ydi hynny i'r ysgol yma.

A nawr, wrth i un drws gau a nifer ohonom ddilyn llwybrau gwahanol iawn, mi fydd 'na un peth yn gyffredin rhyngom am byth; mi fyddwn ni'n dal i fod efo'r fraint o fod yn un o 'blant Brynrefs' ac yn cadw hynny yn agos iawn at ein calonnau.

Ar y nodyn yna, gawn ni ar ran y Chweched Dosbarth estyn ein diolch i Mrs Ellen Williams am ei harweinyddiaeth wych dros y blynyddoedd diwethaf ac i Mr Elfyn Roberts Pennaeth y Chweched am ei gefnogaeth ddi-flino i ni a phob aelod o staff arall sydd wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd diwethaf. Yn olaf, gaf i hefyd ddiolch i chi fy nghyd-ddisgyblion am fod yn griw arbennig a direidus ar brydiau, am roi'r cyfle i minnau hefyd gael dod yn un o 'blant Brynrefs'. Diolch.













## CEUNANT

**Diolch**

Dymuna Einir, Gwenno a'r teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a chariadus Helen Parry, Morwel, Ceunant. Diolch i'r Parchg Marcus Robinson am ei wasanaeth arbennig. Gwerthfawrogir y rhoddion hael ddaeth i law tuag at Gymdeithas Strôc Gogledd Cymru. Diolch hefyd i Dylan Griffiths a chwmni Paragon am eu gwasanaeth urddasol a gofalus.

## PENISARWAUN

**Ymddeoliad**

Dymunir ymddeoliad hapus i Liz - sef Elizabeth Jones, 17 Bryntirion, wedi blynyddoedd o weithio cytûn fel ysgrifenyddes yn Ysgol Tan y Coed a'r Ysgol Gymunedol newydd. Diolch iddi am ei hymroddiad diflino i holl weithgareddau'r pentref byrlymus yma - yn aelod o Bwyllgor y Neuadd Gymunedol a'r Eisteddfod Bentref, Pwyllgor Carnifal, dosbarthwr yr Eco yn fisol, Pwyllgor yr Henoed ac athrawes ac Arolygwraig Ysgol Sul Undebol, Bosra. Wedi galwad am driniaeth i'th ddwy benglin, yn fuan gobeithio, edrychwn ymlaen at dy weld yn ymuno â ni unwaith yn rhagor.

**Diolchiadau**

Dymuna Liz ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r geiriau caredig ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Gymuned Penisarwaun. Mae'r cwbl yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

**Cydymdeimlad**

Yn dawel yng Nghaerdyddd - gynt o Crud yr Awen, 6 Bryn Eglwys, bu farw Myra Griffith, gwraig y diweddar Selwyn Griffith, mam annwyl Euron a'i briod Jacci, chwaer William a Nain i Tali. Bu'r angladd ddydd Gwener, 18fed Mehefin am 11.30am yn Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen. Derbyniwyd rhoddion, yn garedig er cof, tuag at sefydliad Prydeinig y Galon drwy law Meinir (Dylan Griffith) cyfarwyddwr angladdau Tros y Waen, Penisarwaun, Caernarfon. LL55 3BY Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf i chwi fel teulu yn eich profedigaeth, o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a chwaer, a hynny mor annisgwyl.

## CAEATHRO

**Capel**

Ar 4ydd Gorffennaf, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson am 2.00pm. Bydd cyfarfod Arweinwyr i ddilyn y gwasanaeth am 3.00pm. Ar 18fed Gorffennaf bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan Jones am 2.00pm.

**Ymddeoliad Hapus**

Carem ddymuno'n dda i Eirian Griffiths, Annedd a Richard Jones, Ger y Tŵr wedi iddynt ymddeol yn ddiweddar – traed i fyny rŵan a digon o ymlacio!

# Ysgol Llanrug

**Her 30 Gwyllt!**
Rydym yn cefnogi'r ymgyrch yma yn ystod mis Mehefin gyda'r plant yn cael heriau gwahanol i'w gwneud.

**Awduron i'r dyfodol**
Cafodd plant blynyddoedd 5 a 6 sesiwn rithiol ddiddorol gyda'r awdures Casia Wiliam.



**Bwyta'n Iach**
Rydym yn cymryd rhan hefyd mewn sialens bwyta ffrwythau a llysiau Cyngor Gwynedd am y chwe wythnos nesaf.




**Diogelwch y We**
Cafwyd cyfarfod rhithiol gyda PC Dylan yn ddiweddar yn trafod Diogelwch y we.

**Wythnos Iechyd a Lles**
Bu plant y Cyfnod Sylfaen am dro o amgylch y pentref yn ddiweddar fel rhan o Wythnos Iechyd a Lles.

Bu'r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr wythnos. Diolch i'r holl gyfranwyr ac rydym yn hynod o falch o'r plant i gyd.
















**Casglu Sbwriel**
Bu plant blynyddoedd 3 a 4 yn brysur yn ddiweddar yn caglu sbwriel yn y gymuned. Diolch iddynt am eu gwaith caled.



AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS



DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898



# LLANRUG

**Banc Bwyd Arfon**
Hoffai Banc Bwyd Arfon ddiolch i drigolion Llanrug am gyfrannu mor hael yn ystod y flwyddyn anodd hon. Casglwyd dros hanner tunnell o fwyd yn Co-op Llanrug yn ystod y cyfnod yma. Diolch o galon i Gareth a holl staff y Co-op am eu cefnogaeth barod.

Mae'r Banc Bwyd yn dibynnu ar haelioni pobl yr ardal, ac yn gwerthfawrogi pob cyfraniad.

**Cydymdeimlo**
Dymunwn gydymdeimlo gyda Rhian a Dafydd Arfon Jones, Minffordd, yn eu profedigaeth o golli tad Rhian yn Llanuwchllyn, sef Robert Arthur Jones, yn 99 mlwydd oed. Taid caredig i Sioned a Meilir ac i'w holl deulu. Colled fawr i chi.

Yn ddiweddar bu i Angela ac Eifion, Stad Nant y Glyn, gael profedigaeth yn dilyn marwolaeth chwaer Angela ym Methel. Cydymdeimlwn yn fawr â chi, a hefyd â Gwyn Edwards ei brawd a Mr a Mrs Bruce Edwards, Tan y Coed, ei brawd a chwaer yng nghyfraith. Cofion atoch.

**Diolchiadau**
Dymuna Dewi, Bryn ac Angela a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd gan deulu, ffrindiau a'r pentrefwyr, yn eu profedigaeth o golli mam annwyl, sef Marina Williams.

**Merched y Wawr**
Cafwyd bore coffi braf iawn yng nghartref Nan Humphreys, Tan y Coed, yn y cae wrth gwrs! Roedd yn gyfle i gyfarfod yn saff a chael amser i siarad efo cyd-aelodau nad oeddem wedi eu gweld ers bron i flwyddyn, heblaw ar y Zoom! Cafwyd amser i drafod cynlluniau am y flwyddyn nesaf, wrth ystyried beth all fod yn gyfyngiadau.

Diolch yn fawr am y croeso Nan, ac i Bethanne am drefniadau a chysylltu gyda phawb ar y we dros y Cyfnod Clo.

Gan fod Meirwen Lloyd, ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol, yn ymddeol o'r swydd eleni, diolchwyd yn fawr iddi am ei gwaith hynod a dymuno'n dda iddi, a chyflwynwyd torch o flodau iddi fel arwydd o ddiolch.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Aled a Lowri ar enedigaeth eu mab bach Guto Rhys yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Taid a Nain, sef Brian ac Eirian Williams, Glanffynnon. Pawb wedi gwirioni!

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr a'r dymuniadau gorau i Dion Evans, Stad Talybont, ar ei benblwydd yn 21ain oed. Gobeithio y cei lawer o anrhegion a hwyl gyda'r teulu. Cofion gorau.

**Damwain**
Deallwn fod Gwyneth Evans, Glan Moelyn, yn gwella yn dilyn damwain a thorri esgyrn yn ei throed. Brysiwch fendio.

**Mynwent**
Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi cario allan asesiad risg ar ei fynwent sydd yn cynnwys y cofebion.

Mae canlyniad yr asesiad wedi adnabod cofebion sydd angen sylw ac yn ystod y mis nesaf bydd gwaith yn cael ei wneud i'w diogelu. Gellir cael mwy o fanylion am y gwaith yn y fynwent drwy ymweld â gwefan y cyngor - www.llanrug.cymru neu e- bostio clerc@llanrug.cymru

Er mwyn gwneud y cofebion yn ddiogel, mae'r cyngor yn ystyried nifer o opsiynau sydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad risg. Bydd hyn yn cynnwys gosod hysbysiadau ar gofebion, gosod polyn tu ôl i'r garreg fedd gyda thâp wedi amgylchynu, gwneud systemau diogel dros dro, gosod cofebion i lawr, ffensio rhwystrau i bob cofeb neu ffensio darnau cyfan os yw'r broblem yn ddigon difrifol.

Bydd Cyngor Cymuned Llanrug yn gosod rhestr o'r holl gofebion sydd angen sylw ar hysbysfwrdd y fynwent, ar ei wefan a thudalen Facebook a chynghorir perchnogion i gysylltu â'r cyngor os yw bedd eu hanwyliaid ar y rhestr.

Dymuna'r cyngor ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cydweithrediad tra mae'r gwaith yma yn cymryd lle.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Clwb Cant Mehefin
1. Selwyn Lloyd, Llanrug
2. Megan Roberts, Llanrug

**Clwb Côr Clychau'r Grug**
O ddilyn y canllawiau a'r cyfyngiadau presennol, llwyddwyd i ddod at ein gilydd am sgwrs deirgwaith a hynny ar foreau braf a phawb â'i chadair haul a phicnic a digon o hwyl a chwerthin, diolchir i Heulwen am drefnu popeth. Anfonir ein cofion anwylaf at Mena, a da deall fod nifer o'r genod wedi gwella ar ôl ambell i godwm.

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Helen Parry, un o'n haelodau ffyddlonaf ac anfonir ein cydymdeimlad llwyraf at Gwenno ac Einir.

Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Glenys ar 20fed Mehefin. Ein cofion anwylaf ati hi a Siencyn.

Byddwn yn cyfarfod eto ar ddydd Mercher, 30ain Mehefin am baned a theisen ym Mhant Du, Penygroes.

---

## Cymdeithas Edward Llwyd

**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Yn araf deg mae pethau'n gwella yn ein gwlad ac mae aelodau'r gymdeithas yn crwydro cefn gwlad unwaith eto, yn mwynhau'r awyr iach a gwerthfawrogi blodau gwyllt y gwanwyn ar ôl gorfod cadw draw am gymaint o amser. Dw i'n falch o ddweud bod llawer o ddysgwyr yn cerdded efo ni ac yn cael cyfle ardderchog i ddatblygu eu Cymraeg wrth sgwrsio – y ffordd naturiol o ddatblygu iaith newydd. Dyma brofiad un sydd yn cerdded efo ni yn gyson.

**Dysgu'r iaith gyda Chymdeithas Edward Llwyd**
gan Shelagh Fishlock
Dechreuais i ddysgu Cymraeg mewn dosbarth yng Ngholeg Gwent yn 2018. Yn ogystal â dosbarthiadau, roedd athrawon y Coleg yn trefnu gwahanol weithgareddau i ddysgwyr, er mwyn cwrdd â Chymry Cymraeg yr ardal. Y tro cyntaf i fi ymuno oedd ar daith gerdded yng Ngwlypdiroedd Casnewydd a drefnwyd gan y Coleg a Chymdeithas Edward Llwyd.

Prin iawn oedd fy Nghymraeg ar y pryd, ond cwrddais i â sawl dysgwr arall, a hefyd aelodau CELl. Ces i fy annog i ddal ati gyda'r iaith. Yn ystod y daith o gwmpas y Gwlypdiroedd, esboniodd yr arweinydd (y diweddar Gareth Beynon) y byddai taith arall y Gymdeithas ym mis Tachwedd, amser "murmurations" y drudwy. A dyma fi'n chwilio am fanylion ar wefan CELl, gwefan cyfrwng Cymraeg wrth gwrs. Wedi darllen geiriau fel "dringo" a "serth," es i â'r rhestr i fy nhiwtor- roeddwn i'n edrych ar restr teithiau'r Gogledd-orllewin! Wedyn, wrth edrych ar y rhestr gywir doedd dim sôn am 'Wlypdiroedd Casnewydd.' Roeddwn ar goll, nes i mi weld y geiriau 'Crwydro Gwastadeddau Gwent'. Ond er gwaetha'r heriau ieithyddol, ymunais i â'r daith - taith a fyddai'n cychwyn siwrne arall i ddarganfod mwy am natur, hanes a diwylliant Cymru, ffrindiau newydd ac iaith y nefoedd.

Ar y dechrau roedd hi'n anodd iawn i fi gael sgwrs gydag aelodau o'r grŵp, ond roedd pawb yn amyneddgar, yn ailadrodd cwestiynau, yn esbonio pethau ac yn gwneud eu gorau glas i ddeall fy mrawddegau lletchwith. Ar ddiwedd bob taith ro'n i wedi blino'n lân - dim achos y cerdded, ond achos diwrnod hir o Gymraeg. Yn ffodus, erbyn hyn, er nad ydw i'n rhugl, dw i'n gallu mwynhau sgwrsio, a deall y rhan fwyaf o esboniadau'r arweinydd (hyd yn oed rhai ag acen Cwm Tawe!)



Felly, sut mae'r teithiau Cymdeithas Edward Llwyd yn help i ddysgwr (neu "siaradwr newydd")?

Byddech chi gyda grŵp sydd â diddordeb cyffredin – cerdded, byd natur, hanes Cymru.

Byddech chi'n treulio diwrnod cyfan mewn amgylchedd hollol Gymraeg, ble mae siarad yn Saesneg yn swnio'n annaturiol.

Dim "Cymraeg y dosbarth" sy'n cael ei defnyddio: bydd pobl yn y grŵp o bob ardal o Gymru, gydag acennau gwahanol, geiriau tafodieithol a gwahanol ffasiynau o ddefnyddio'r iaith. Mae hynny'n ddryslyd ar y dechrau, ond yn ddefnyddiol iawn i werthfawrogi amrywiaeth yr iaith.

Bydd y profiad hwn yn cynyddu'ch hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd eraill y tu allan i'r dosbarth.

Mae e'n jyst lot o hwyl!

Da ynte! Mae Shelagh wedi croesi'r bont o fod yn ddysgwraig i fod yn un o'n siaradwyr newydd hyderus. Mae angen llawer mwy fel hi os ydym i fod i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Fel cymdeithas sydd yn cerdded mewn tair rhan dros Gymru bob dydd Sadwrn.

**Clwb 100**

Er y Cyfnod Clo bu Pwyllgor y Neuadd yn dal i dynnu y rhifau lwcus ar gyfer y Clwb 100. Fel arfer roedd y tri rhif llwyddiannus yn derbyn £25, £15 a £10. Dyma'r aelodau ffodus ar gyfer y flwyddyn yma hyd yn hyn.

Ionawr: Sharon Owen, Bro Eglwys; Ella Roberts, Y Rhos; Gwenda Farrar, Rhoslan.

Chwefror: Menna Coles, Maes yr Haf; Iago Llywelyn, Bron Gwynedd; Myrna Owen, Rhoslan.

Mawrth: Tecwyn Hughes, Y Ddôl, Gareth Hughes, Bro Rhos, Glenda Hughes, Y Ddôl.

Ebrill: Joyce Gaffey, Hafan Deg; Lea Jones, Tan y Buarth; Yws Gwynedd, Y Felin.

Mai: Nia Griffith, Glandwr; Cledwyn Jones, Bro Rhos; Deian Elfryn, Bron Gwynedd.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eich cefnogaeth parod.

**Merched Y Wawr**

Croesawodd Anita ein Llywydd bawb i gyfarfod Zoom arall. Croesawyd Nan Jones yn ôl wedi cyfnod yn Sbaen. Penblwydd hapus i Anne a Meira ac i Glenys fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig mis nesaf. Llongyfarchiadau i ferch Eleri Warrington ar ei phriodas yn ddiweddar. Yr un modd i Elis, ŵyr Gwyneth, Llysgwynt ar gael ei apwyntio yn Lysgennad i'r Bwrdd Marchnata Gwlân. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Alys Jones a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen.

Yn ystod mis Ebrill bu'r aelodau'n cymryd rhan yn ymgyrch genedlaethol MYW i Guro'r Corona'n Camu. Y nôd yw cynnal ymwybyddiaeth o bwysigrwydd symud a chadw'r meddwl yn iach. Cyfanswm camau y merched oedd 3,949,785 o gamau. Da iawn.

Etholwyd swyddogion ar gyfer 2021-2022. Y Llywydd fydd Anne Elis, Liz Watkin yn Ysgrifennydd a Gwyneth Jones yn Drysorydd. Diolchodd Anita iddynt am eu parodrwydd i dderbyn y swyddi.

Y wraig wâdd oedd Awen Iorwerth sy'n llawfeddyg Orthopedeg. Wedi ei geni yn y Rhondda, derbyniodd ei haddysg gynradd yn Rhydymain a Llandegfan a'i haddysg uwchradd yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Yna ymlaen i Brifysgol Caerdydd i astudio Meddygaeth.

Testun ei sgwrs oedd 'Ar Ysgwyddau Cewri'. Cawsom orig ddifyr yn gwrando ar y 'cewri' a ddylanwadodd ar ei bywyd a'i gyrfa. Dylanwad athrawon, rhieni a'i theulu, a'r hen feddygon esgyrn o Fôn a ddaeth yn enwog drwy'r byd.

Un o'r 'cewri' oedd Hugh Owen Thomas, dyfeisydd 'Splint Thomas'. Roedd yn or-ŵyr i Evan Thomas y meddyg esgyrn cyntaf o Fôn. Roedd y splint ar gyfer sythu coesau plant a phobl ag esgyrn â gamwyd oherwydd y diciâu. Bu cryn ddefnydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe ddefnyddir y splint hyd heddiw ac fe adnabyddir Hugh Owen Thomas fel tad orthopedeg modern. Un arall o ddisgynyddion Evan Thomas oedd Syr Robert Jones, nai Hugh Owen Thomas. Ef sefydlodd Ysbyty Orthopedeg Gobowen.

Yn ystod ei gyrfa cafodd Awen gyfle i gydweithio ac i hyfforddi gyda 'chewri' sy'n lawfeddygon orthopedeg arloesol yn Cape Town, Boston, Efrog Newydd a Sydney. Maes arbenigol Awen bellach yw ymgynghorydd ar yr ysgwydd a'r penelin.

Wedi dychwelyd i Gymru trodd at addysgu gan sefydlu 'Y Gymdeithas Feddygol' gyda'r bwriad o gadw myfyrwyr meddygaeth Cymraeg yng Nghymru. Hi bellach yw Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant llawfeddygon, sy'n gyfle i drosglwyddo ei harbenigedd i'r genhedlaeth nesaf yn y maes. Terfynodd ei sgwrs gyda'r 'cewri' o blith ei theulu , yn bennaf ei rhieni am eu dylanwad a chefnogaeth amhrisiadwy.

Diolchwyd i Awen am sgwrs hynod o ddifyr gan Nan Rowlands. Mis nesaf daw'r tymor i ben gyda thaith gerdded o gwmpas yr ardal yn diweddu gyda the prynhawn yng nghaffi Perthyn.

Diolch i Rhian am ei hadroddiadau dros y tymor.

**Cydymdeimlad**

Yn ei chartref yng Nghaerdydd bu farw Eira Williams, un o dair merch teulu Tyddyn Llidiart, Seion. Merch Megan a'r diweddar John Williams (John Becar). Cydymdeimlwn â'i chwiorydd Eleri, Einir a'u teuluoedd. Yn ôl eu dymuniad bu'r angladd draw yn y 'gwreiddiau' ym mynwent Macpellah, Deiniolen.

**O'r Cyngor Cymuned**

O'r diwedd mae swydd wag Bethel wedi ei llenwi. Diolch o galon i Sasha Williams, Bakhita am ymateb i'r aml apêl a braf oedd ei chyfethol yng nghyfarfod llawn y cyngor mis Mehefin. Mae hi yn enghraifft berffaith

Sasha Williams



o'r hen ddywediad 'Os ydych eisiau rhywbeth wedi ei wneud gofynnwch i rywun sydd yn brysur yn barod.' Rydym yn ymwybodol o gyfraniad parod Sasha i sawl agwedd o fywyd y pentref o weithgareddau pobl ifanc i un o reolwyr gweithgar yr ysgol gynradd. Croeso, a diolch i ti Sasha. Mae Gareth, Jane a minnau yn edrych ymlaen i gyd-weithio gyda thi dros etholwyr Bethel yn yr amser heriol yma o ddatblygiad ardal.

Cafwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir parthed llwybrau cyhoeddus y plwyf. Gyda'r cynnydd sylweddol yn niferoedd sy'n cerdded y llwybrau bellach mae'n fater sy'n denu cryn drafodaeth. Bydd Is-Bwyllgor llwybrau'r Cyngor yn cyfarfod i ymateb. Roedd y Cyngor yn hynod falch o adroddiad cynhwysfawr â gyflwynwyd o ardal Bethel gan gerddwyr yn adrodd ar gyflwr nifer o'r llwybrau ac ambell awgrym ar sut y gellid gwella eu cyflwr. Fe fydd y cynghorwyr o'r wardiau eraill yn y plwyf yn anelu i gerdded ac adrodd ar eu hardaloedd hwy i gael pictiwr cyflawn o'r sefyllfa. Y bwriad terfynol fydd creu yr hen ddelfryd o rwydwaith llwybrau yn uno'r plwyf.

Bu'r Is-Bwyllgor Meysydd Chwarae hefyd yn trafod y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned yn cymryd drosodd reolaeth y meysydd gan Gyngor Gwynedd. O gofio'r costau uchel parthed rheolaeth, offer a chyfrifoldebau mae hwn yn bwnc dyrys yn galw am gryn drafodaeth.

Codwyd ambell i bwynt penodol i Fethel. Tynnwyd sylw at gyflwr to hen Gapel Bethel gydag ambell i lechen rhydd yno, ac ambell lechen eisoes wedi disgyn. Mae hyn yn creu poendod gan fod llwybr cyhoeddus yn mynd heibio ochr y cyn-gapel. Oherwydd hyn, cysylltwyd â Chyngor Gwynedd iddynt gysylltu â'r perchennog.

Tynnwyd sylw hefyd at nifer gynyddol o loriau o gryn faint sy'n anwybyddu yr arwydd 'dim mynediad' ar hyd y ffordd o Gefn Cynrig i Glan Gors. Anfonwyd lluniau o rhai o'r loriau i Gyngor Gwynedd gan ofyn rhoddi arwydd ychwanegol o 'ddim mynediad i loriau' ar geg y ffordd. Eisoes mae rhai loriau wedi llithro i'r ffôs ar ochr y ffordd gul, neu wedi taro wal un o'r tai.

Adroddwyd fod y llwybr cerdded/beicio arfaethedig bron yn barod bellach o Fethel i Dyddyn Hen. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoddi £200,000 wrth law i drafod gyda tirfeiddianwyr i ymestyn y llwybr o Dyddyn Hen i Gaernarfon.

Mae'n ymddangos fod y cae gyferbyn â'r Cremlyn wedi ei brynu. Edrychwn ymlaen at dderbyn y cais cynllunio arfaethedig, yn enwedig o gofio fod llwybr cyhoeddus yn croesi'r cae.

Nid oedd gwrthwynebiad i gais perchnogion Perthyn i ofyn am drwydded caniatâd i werthu diodydd alcohol gyda phrydau bwyd.

**Talp o Hanes**

Mae cais cynllunio wedi ei dderbyn i droi hen adeilad Y Post yn ôl yn dŷ annedd. Cefais sgwrs ddiddorol gyda Cled Post (mae'r enw yn aros) yn ddiweddar. Dywedodd wrthyf fod ganddo gist yn y tŷ gyda'r holl ddogfennau gan gynnwys perchnogion yr hen Bost ers pan adeiladwyd y tŷ annedd gyntaf yn 1856. Mae'n ymddangos ei fod wedi ei ddefnyddio fel Post am dros 80 mlynedd. Dyna i ni dalp o hanes. Felly, os oes rhai ohonoch â chysylltiad gyda chyn deuluoedd unai'r tŷ annedd gwreiddiol neu'r Post cysylltwch â Cled.

**Aelwyd yr Urdd ac Ysgol Sul y Cysegr**

Ar noson braf 27ain Mai, cyd-gerddodd aelodau'r Urdd a'r Ysgol Sul tua'r Felinheli, dan oruchwyliaeth a'r canllawiau priodol. Cafwyd amser bendigedig yng nghwmni pawb. Diolch i Anti Sioned am y gwahoddiad i ardd Gwynfa ar ddiwedd y daith, ac am y gacen a diod.

Nid oedd Gwil ac Eldra gyda ni am reswm da iawn. Maent newydd groesawu chwaer fach newydd, Nyfain Llŷr – llongyfarchiadau i'r teulu a croeso mawr Nyfain fach.

Bydd cyfle i ymaelodi â'r Adran yn mis Medi, gan obeithio bydd yr Ysgol Sul wedi ail-gychwyn erbyn hynny hefyd.

Anfonwn ein cofion at Anti Myfanwy, ein harolygwraig sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn





# Bwgan Pen-Cefn

Ar fin y ffordd rhwng dau bentref y Waunfawr a Chaeathro, saif hen adeilad, fu ar un amser yn ysbyty fechan ar gyfer cleifion yn dioddef o afiechydon heintus fel y Frech Wen a'r Dwymyn Goch. Fel 'Hosbitol Pen-Cefn' y'i gelwid yn lleol, â'r grêd oedd bod bwgan yn mynychu'r lle. Un ô'r rhai gafodd brofiad iasol wrth fynd heibio'r hen ysbyty yn y nos oedd gwas fferm ifanc o'r Waunfawr.

Yn ôl yr hanes, roedd y llanc ar y Maes yng Nghaernarfon yn hwyr un nos Sadwrn yn sgwrsio efo cyfaill iddo. Beic oedd ganddo yn mynd adre a phan oedd ar fin cychwyn, dywedodd y cyfaill wrtho, "Hitiwn i ryw lawar am fynd adra yn y nos heibio'r hen hosbitol Pen-Cefn 'na. Ma' nhw'n deud bod 'na rhyw hen fwgan yno, â'i fod o'n dwad ar ôl pobol".

Chwerthin ddaru'r llanc a dweud, "Paid â rwdlian, chdi a dy hen fwgan, does 'na ddim ffasiwn beth a bwganod"!

Cychwynnodd y llanc am adre, ac wedi cyrraedd gwaelod Allt Gorffwys, daeth oddi ar ei feic a dechreuodd ei bowlio'n araf i fyny'r allt serth. Wrth agosau at yr hen ysbyty, teimlodd blwc sydyn ar ei gôt, yna plwc arall, a rhagor o blyciau. Neidiodd y llanc 'nôl ar ei feic mewn dychryn a dechreuodd badlo nerth ei draed i fyny'r allt. Ond cyflyma'n byd y padlai, mwya'n byd roedd y plycian, a'i gôt laes yn araf lithro oddi arno. Wedi cyrraedd pen yr allt, roedd y llanc druan wedi llwyr ddiffygio, ac o ganlyniad collodd reolaeth ar ei feic a glaniodd yn bendramwnwgl ynghanol y gwrych ar ochr y ffordd. Yn y fan honno y sylweddolodd beth oedd wedi digwydd. Er mawr syndod, nid y bwgan oedd yn ei ddilyn y noson honno, ond godre ei gôt laes wedi ymrwymo yn hwb a sbôcs yr olwyn, a dyna beth oedd yr esboniad am yr holl blycian.

Er profiad iasol y llanc y noson honno, credir o hyd bod yr hen fwgan 'Hosbitol Pen-Cefn', yn dal i ddod ar ôl pobl yn y nôs!

**Gwilym Morris Jones**

Ysbyty Gwynedd. Cadwodd Myfanwy mewn cyswllt â ni drwy gyfnod y Cyfnod Clo. Diolch arbennig i Anti Susan (Cynllun EFE) ac i'r Parch. John Pritchard am ddarparu deunydd i ni ar y Sul drwy gyfrwng Zoom. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

**Penblwydd Hapus**

Dymuniadau gorau i ti Glenys Griffith draw yn Llanharan. Ar 19eg Mehefin, roedd Glenys yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Daeth cyfarchion lu iddi – a Siencyn – gan ei ffrindiau yma ym Methel.

Daeth y dydd o weld wyth deg, –
yn ei byw
bu i bawb yn anrheg.
Yn y tŷ, cof croeso teg,
a'i haelioni'n delyneg.

**Margaret Tŷ Rhos yn 100 oed**

Fe hoffai yr holl deulu ddymuno penblwydd hapus arbennig iawn yn 100 oed i fam, nain a hen nain sbeshial iawn, sef Margaret Hughes, neu 'Margaret Tŷ Rhos' fel bysa cymdogion Bethel yn ei hadnabod.

Ganwyd Margaret ar 6ed Gorffennaf 1921 yn Rhydaman, am fod ei thad William Humphreys wedi symud yno gyda Margaret ei wraig a'i blant o Fethel, i gael gwaith. Hi oedd yr 8fed allan o 9 a anwyd iddynt, a thristwch nodi mai y hi yw'r unig un yn fyw erbyn hyn o blant Tŷ Rhos.

Symudodd y teulu yn ôl i Fethel pan oedd Margaret yn 3 oed a chartrefu yn Nhŷ Rhos. Roedd yn meddwl y byd o Tŷ Rhos, ac yn dal i wneud, pan mae'r cof yn caniatau iddi wneud.

Roedd croeso bob amser i'w gael ganddi a'i diweddar ŵr Robin Hughes, a'i phlant, Dafydd (o Lanberis, a fu farw yn sydyn 4 blynedd yn ôl) ac Einir sydd bellach yn byw yn Wrecsam ers rhai blynyddoedd.

Roedd Margaret bob amser yn annwyl a mor barod ei chymwynas. Mi aeth i weithio i'r gegin yn Ysgol Gynradd Bethel, gan helpu o gwmpas y gegin i ddechrau ac yna fel cogyddes. Un dda oedd hi am deisen mwyar duon ac afal, sbwnj coffi a llawer mwy! Mi oedd wrth ei bodd efo'r plant a'r staff i gyd, llawer o straeon wedi ei rhannu dros y blynyddoedd a llawer iawn o chwerthin!

Hoffai'r teulu ddiolch yn fawr iawn i staff Plas Pengwaith, Llanberis, mae eich gofal a chariad ohoni yn amhrisiadwy.

Diolch am bopeth yr ydych wedi ei wneud i ni gyd dros y blynyddoedd fel mam, nain a hen nain arbennig iawn, mi ydach werth y byd. Mwynhewch y dathlu, da chi wir yn ei haeddu. Halen y ddaear go iawn.

Cariad mawr a lot o swsus gan Einir, Geraint, Rhydian, Betsan, Dafydd, Celt, Efa ag Elsi. Shirley ar teulu. Llion, Jen, Anwen, Billy ag Efa. Lliwen, Gwyn ac Elin. Llinos, Aled, Carwyn ac Elgan, ar teulu oll.









# Chwilota

## Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.

**Oriel Enwogion Chwaraeon a Mabolgampau**
Gydag ymddiheuriadau i'r Golygydd Chwaraeon am grwydro i'w diriogaeth!

Mae pob ardal yn hoffi 'hawlio' rhywun enwog, yn enwedig ym myd chwaraeon. Mae Llanberis wedi hawlio Mills Roberts, y meddyg a'r gôl-geidwad rhyngwladol, ers dros ganrif, a Llanrug dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi hawlio Kieffer Moore, y peldroediwr. Ond oes yna rai eraill, llai adnabyddus i ni heddiw, wedi disgleirio mewn gwahanol gampau corfforol yn y gorffennol? Ac a ddylem eu cofnodi mewn rhyw fath o Fywgraffiad Chwaraeon Lleol? Dyma dri i'w hystyried, ond rhai a chysylltiad â chwaraeon braidd yn anghyffredin i rai traddodiadol ein bro ni.

**John Rowlands. Rhedwr Cyflym a Chwaraewr Rygbi**
Roedd ei daid wedi ei fagu yn Llanrug, yn frawd i Syr Hugh Rowlands, Plastirion, a'i dad yn gyfreithiwr yng Nghaer pan gafodd John ei eni ym 1873. Symudodd y teulu'n ddiweddarach i Fangor, ac yna i Lanberis. Derbyniodd addysg breifat yn Ysgol Sutton Valence, Swydd Caint, a thra yno disgleiriodd ym myd y campau. Bu'n cynrychioli'r ysgol mewn sawl camp, yn enwedig athletau, ac yr oedd hefyd yn gapten y tîm rygbi. Tua diwedd ei gyfnod yn yr Ysgol cafodd gynnig i chwarae rygbi i dîm Richmond ac i Gymry Llundain.

Erbyn 1891 roedd gyda'i fam weddw a'i chwaer yn Plas Coch, Llanberis a daw ei enw i'r amlwg yn ennill mewn rasys 100 llath ym Mabolgampau Blynyddol Bangor. Anodd cael ei hanes am y pedair blynedd nesaf, ond roedd yn Ne Affrica ym 1895, ac yn chwarae rygbi i dîm y Pirates. Wrth chwarae i'r Pirates yn erbyn y Wanderers ym 1896, torrodd ei ffêr ac o bosib fod yr anffawd wedi rhoi diwedd ar ei yrfa ym myd rygbi. Fe'i disgrifir fel cefnwr hynod o gyflym.

Dychwelodd i Lanberis ym 1898, ond y flwyddyn ddilynol roedd yn ôl yn Ne Affrica, a chyrhaeddodd dair wythnos cyn cychwyn Rhyfel y Boer. Ymunodd â chatrawd wirfoddol o farchogion – y 'Second Brabant's Horse' ym mis Rhagfyr, ond yn Ebrill 1900 fe'i cymerwyd yn garcharor rhyfel gan y Boer. Fe'i rhyddhawyd ym mis Hydref 1900, ond bu farw o 'enteric fever' ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno.

Gyrfa fer, ymhell oddi cartref; ond gosodwyd cofeb iddo gan y teulu yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

**Thomas Odwyn Jones, Cricedwr a Chwaraewr Rygbi**
Fe'i ganed yn Llanfair-is-gaer tra oedd ei dad yn giwrat yno, ond symudodd y teulu yn fuan i Lanberis pan benodwyd ei dad, y Parchg David Jones yn rheithor y plwyf. Yng Nghyfrifiad 1891 mae'r teulu oll, ar wahân i'r tad, yn nodi mai Saesneg yn unig yw eu hiaith. Does dim sicrwydd ble cafodd ei addysg, ond erbyn 1898 roedd yn fyfyriwr yng Ngholeg Keble, Rhydychen ac yn chwarae rygbi fel cefnwr i Brifysgol Rhydychen yn erbyn Caergrawnt. Mae posibilrwydd iddo chwarae i Gymry Llundain.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ar wyliau o'r coleg mae'n debyg, roedd yn chwarae criced i dîm Caernarfon – yn batio ac yn bowlio. Mewn gêm yn erbyn tîm Bangor, cafodd Caernarfon eu bowlio allan am ddim ond 63 rhediad, gydag Odwyn Jones yn sgorio bron i hanner eu rhediadau, ac yn 29 heb fod allan pan gollwyd y wiced olaf.

Cafodd ei ordeinio i Eglwys Loegr ym 1902 a'i benodi'n giwrat yn Sir Fynwy. Oddi yno, symudodd i Hersham, Walton on Thames ym 1908, a dyna pryd y priododd ag Anna Nielson, merch o Ddenmarc. Arhosodd yn Swydd Buckingham, a bu'n gwasanaethu yn Chieveley ac yn ficer Grazeley. Methais â chael cofnod pellach am ei yrfa yn yr Eglwys nac fel chwaraewr rygbi a chriced.

**Muriel Gwendolen Edwards, Dringwraig**
Fe'i ganed yn Llanberis ym 1886, yn ferch i reithor y plwyf, William Edwards a'i wraig. Does wybod a gafodd addysg yn yr ysgol leol, ond pan symudodd y teulu i Fangor roedd Muriel a'i chwiorydd yn cael addysg yn y cartref gan "private governess". Graddiodd mewn Cemeg ym Mangor, gan barhau i weithio yn y Brifysgol, a phriodi â Humphrey Owen Jones yn y Gadeirlan ym Mangor ym mis Awst 1912. Yr oedd y ddau'n ddringwyr profiadol, ond bythefnos wedi eu priodas fe'u lladdwyd mewn damwain yn yr Alpau. Mae hanes y ddamwain wedi ei chroniclo gan Dewi Jones yn ei lyfr 'Ar Drywydd y Dringwyr'.

Roedd y tri uchod yn amlwg yn dod o deuluoedd breintiedig, ac yn fwy na thebyg wedi derbyn addysg breifat, sy'n egluro pam mai criced, rygbi a dringo oedd eu campau. Gêm i'r werin bobl oedd pêl-droed! Cefndir go wahanol mae'n siŵr oedd gan Ernie Jones.

**Ernest (Ernie) Jones. Cricedwr a Chwaraewr Pêl-droed Rheolau Awstralia**
Ym 1896, roedd tîm criced Awstralia ar ymweliad â Lloegr. Yn y garfan roedd gŵr ifanc a anwyd yn Auburn, De Awstralia, sef Ernie Jones. Mae'n cael ei ddisgrifio fel *"a fine young fellow and a typical Welshman … who comes from a Llanberis family and has relations in Holywell …"*. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud fod y cricedwr ifanc yn bwriadu ymweld â'i deulu'n ddiweddarach yn yr haf a'i fod yn falch iawn o'i dras Cymreig. Mae adroddiad arall yn nodi mai ei dad oedd yn dod o Dreffynnon. Does wybod pwy oedd ei deulu o



Lanberis, ond yr oedd cysylltiad yn ôl ei gyfaddefiad ei hun.

Bowliwr cyflym oedd Ernie Jones, ond mae'n amlwg mai braidd yn anystywallt oedd ei ddull, a bu cryn ddadlau ynglŷn â hynny yng ngemau cynghrair Awstralia. Er hynny, credid ei fod yn ddigon 'cywir' ei ddull i gynrychioli ei wlad, a chwaraeodd mewn 19 gêm brawf. Mae'n dal un record na chaiff byth ei thorri: fo oedd y bowliwr cyntaf erioed i gael ei alw am fowlio anghyfreithlon mewn gêm brawf!

Mewn gêm yn erbyn Swydd Gloucester, cafodd y fraint o hawlio wiced cricedwr enwocaf y cyfnod, sef W. G. Grace. Ei berfformiad gorau wrth gynrychioli Awstralia ym 1896 oedd mewn gêm un batiad yn erbyn tîm o'r Unol Daleithiau a gafodd eu bowlio allan am 28 rhediad. Cipiodd wyth wiced am ddim ond chwe rhediad!

Bu hefyd yn chwarae Pêl-droed Rheolau Awstralia i dimau Port Adelaide, North Adelaide a South Adelaide.

Bu farw yn 74 mlwydd oed ym Magill, De Awstralia ym 1943.

**Ras yr Wyddfa – ac ambell record gynnar**
Ni chafwyd ras y llynedd, a fydd yna'r un y mis hwn chwaith. Lle methodd clwy' traed a'r genau i ohirio'r ras, llwyddodd y pandemig.

Mae'r record bresennol yn sefyll ers 1985, ond pryd tybed y bu'r ymdrechion cyntaf i geisio concro'r Wyddfa yn yr amser cyflymaf? Rhaid mynd yn ôl i 1895, ac ymdrechion gan ddau athletwr o Lerpwl.

Daw'r adroddiad cyntaf o fis Gorffennaf y flwyddyn honno, ond heb nodi dyddiad penodol. Ted Battersby o Lerpwl oedd y rhedwr, ond anodd gwybod pa mor gywir yw'r ffeithiau. Yn y papurau newydd Cymraeg defnyddir y term "Dywedir ei fod …" ac yn y rhai Saesneg "It is said that …" A oedd unrhyw un yn Llanberis i gadarnhau ei fod wedi rhedeg i'r copa ac yn ôl? Mae'r holl adroddiadau'n nodi iddo redeg o Lanberis (does dim sicrwydd o ble'n union yn y pentref y cychwynnodd) i'r copa mewn 53 munud, ac iddo ddychwelyd mewn 38 munud. Byddai nifer go dda o redwyr yr oes hon yn ddigon bodlon ar amser o fymryn dros awr a hanner i




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

GERAINT OWEN CARPEDI
Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

gwblhau’r ras.

Ond mae amheuaeth. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1897, mae adroddiadau eraill am Battersby yn rhedeg yr Wyddfa – mewn 53 munud i’r copa, a 38 munud yn ôl. Yn union yr amser a gofnodwyd ym 1895 ! Ac mae’r disgrifiadau bron air am air â’r rhai a gafwyd ddwy flynedd ynghynt.

Mae’n debygol fod yr adroddiad am yr ail athletwr yn fwy tueddol o fod yn wir. Alan H. Twentyman oedd ei enw, ac nid yw’n honni iddo redeg i fyny ac i lawr ond yn hytrach mai ef oedd y cerddwr cyflymaf! Hawliodd y gamp ar y 12fed o Fedi, gan gychwyn o Lanberis am ddeng munud i ddau, a chyrraedd y copa am ddeng munud wedi tri. Ond wnaeth o ddim troi ar ei sawdl a chychwyn i lawr ar ei union. Arhosodd am oddeutu hanner awr dda i gael gorffwys, a chychwyn i lawr am chwarter i bedwar. Roedd wedi cyrraedd y gwaelod ychydig funudau wedi hanner awr wedi pedwar. Cofnodir ei gamp gerdded yn ddwy awr a munud mewn rhai adroddiadau a dwy awr ac wyth munud mewn adroddiadau eraill. Does neb yn ychwanegu’r hanner awr o orffwys ar y copa!

Mae’r mwyafrif o’r adroddiadau am Twentyman yn honni mai ef yw’r cyflymaf i ddringo i fyny ac i lawr yr Wyddfa, ac felly’n diystyru camp amheus Battersby ddeufis ynghynt. Mae un ffaith arall sy’n rhoi mwy o hygrededd i gamp Twentyman. Cofnodir gan amryw fod *“Pritchard, the guide, accompanied him.”*

Twentyman gafodd y clod, ond yn ôl ambell adroddiad roedd Pritchard eisoes wedi arwain taith i’r copa’n gynharach y diwrnod hwnnw, ac yna’n ‘cadw cwmni’ tra roedd y gŵr o Lerpwl yn gosod yr amser cyflymaf am daith i fyny ac i lawr y mynydd.

Michael Pritchard oedd y tywysydd, a’r unig un o’r enw hwnnw y gallaf ei ddarganfod yn byw yn Llanberis yw chwarelwr yn byw yn Stryd Goodman ym 1891. Tybed oes rhai o’r darllenwyr yn gwybod mwy o hanes y tywysydd hwn?

**Raja y ceffyl gwedd - a siom**

Mae stori dda tu ôl i ambell enw lle. Ond gochelwch: nid yw pob stori dda yn wir.

Ardal ym mhlwyfi Llanddeiniolen a Llanrug yw Pontrhythallt, gyda’r afon Rhythallt (neu’r Saint bellach) yn ei rhannu. Ar ochr ddeheuol yr afon roedd y Rhos Rug, tir comin plwyf Llanrug. Ar yr ochr ogleddol roedd y Waun Rhythallt, tir comin plwyf Llanddeiniolen. Hawliwyd y tir comin hwn yn Llanddeiniolen gan berchnogion Stad Coed Alun, Caernarfon a’r Glascoed. Adeiladwyd tyddyn bychan ar y Waun Rhythallt, a dyna enw’r tŷ hyd heddiw.

Ar lafar, nid y Waun Rhythallt oedd yr enw a arferid am y tŷ, ond Tŷ Raja. Does gen i ddim cof pryd oedd y tro diwethaf i mi glywed yr enw hwnnw’n cael ei ddefnyddio. Gwn mai dyna’r enw a ddefnyddiai fy mam, ac iddi ei glywed gan ei thad hithau, a fu’n byw o fewn rhyw ddau gae i’r tŷ yn dilyn ei briodas. Ond pam ‘Raja’?

Yr eglurhad oedd bod llwyni eithin a thyfiant trwchus arall ar yr hen waun, a bod angen ei chlirio cyn y gellid ei ffermio gan denant y stad. Daethpwyd â cheffyl gwedd anferth i ddiwreiddio a llusgo’r llwyni eithin o’r tir - a’i enw oedd Raja. Byddwn innau’n blentyn yn dychmygu’r ceffyl wrth ei waith ar y llethrau uwchben yr afon.

Ond, a’r ond hwnnw a arweiniodd at yr eglurhad ar yr enw. Weithiau, o wrando’n ofalus ar ynganiad yr enw Raja, byddai ‘r’ arall, ysgafn iawn, iawn yn cael ei hychwanegu at ddiwedd y gair, a’i droi’n Rajar. Ac mae’r enw hwnnw’n ymestyn yn ôl bron i ddau gant a hanner o flynyddoedd, os nad yn gynharach. Daw’r cyfeiriad mewn dogfen sydd ar gadw yn Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon, sef cytundeb ym mis Medi 1784 rhwng perchennog Stad y Glascoed a’r tenant, gŵr o’r enw Richard Evans. Roedd y cytundeb yn eithrio rhai adeiladau a thiroedd, sef plasty’r Glascoed a’r berllan, a hefyd *“the house built by Roger Thomas adjoining the common”.*

Felly, roedd tŷ ar dir y Glascoed cyn i dir comin y Waun Rhythallt gael ei hawlio. A’r tŷ hwnnw - Tŷ Roger (Thomas) - yn sefyll ar derfyn y comin. Mae caeau’r Glascoed rhwng y ffordd a’r afon wedi eu clirio bellach, ond roedd olion hen adfail bron gyferbyn â thalcen tŷ’r Waun Rhythallt. Hwn, mae’n debyg oedd y Tŷ Rajar gwreiddiol, a’r enw wedi ei drosglwyddo gan y trigolion lleol i’r tŷ newydd a adeiladwyd ar yr hen dir comin, a’i gadw ar lafar dros genedlaethau.

Stori dda, ond siom na fu ceffyl gwedd o’r enw Raja yn clirio’r tir. Er hynny, eglurhad llawn mor ddiddorol.

**Dafydd Whiteside Thomas**

**www.chwilota.wordpress.com**

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r *Eco*, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, 01286 673515, dafydd.wthomas@btinternet.com


HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell, Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk





# Ysgol Waunfawr

**Clwb Ar ôl Ysgol**
Dymuniadau gorau a diolch i staff a phwyllgor y Clwb ar ôl ysgol am eu gwaith caled yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu i'r clwb gau eu drysau ar ddiwedd yr hanner tymor. Yn sicr, mae sawl teulu wedi cael budd mawr o'r ddarpariaeth.

**Genedigaeth**
Bu i newyddion arbennig ein cyrraedd - mae babi Mrs Sioned Jones wedi cyrraedd yn ddiogel. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu ac edrychwn ymlaen at gyfarfod Beca Haf yn fuan. Edrychwn ymlaen hefyd at glywed am newyddion am enedigaeth babi Mrs Hannah Williams yn fuan.

**Gardd yr ysgol**
Diolch i Anti Susan a Trevor am eu gwaith caled yn yr ardd - mae'n werth ei gweld. Diolch hefyd am yr holl gyfraniadau o blanhigion ar gyfer yr ardd yn ystod y tymor. Mae Dosbarth Yr Wyddfa wedi mwynhau plannu a gofalu am y planhigion o dan ofal Anti Mari.



**Ymgyrch Bwyta Llysiau**
Bydd yr ysgol yn hyrwyddo llysiau am weddill y tymor ysgol drwy'r gwasanaeth cinio ysgol. Enw'r ymgyrch yw Bwytwch Y Llysiau i'w llethu, a bydd un llysieuyn newydd yn cael ei hyrwyddo pob wythnos hyd at ddiwedd y tymor.

**Ymgyrch Smarties**
Meddyliodd Rhieni a Chyfeillion yr ysgol am ffordd ddifyr iawn o godi arian i'r ysgol yn ddiweddar, sef llenwi tiwb Smarties gydag arian wedi ei gasglu wrth wneud swyddi a jobsys o gwmpas y cartref yn ystod hanner tymor. Mae'r arian wrthi'n cael ei gasglu ar hyn o bryd a bydd y dosbarth sydd wedi casglu'r swm fwyaf o arian yn derbyn gwobr. Mae'n amlwg fod cyflogau hael iawn yn cael eu talu yn Waunfawr!

**Baw Ci**
Mae baw ci'n broblem ar gae'r ysgol. Diolch i Abi, Blwyddyn 6 am lunio'r arwydd arbennig hwn i atgoffa trigolion i beidio defnyddio'r cae ar gyfer cŵn.

**Rhodd ariannol**
Dymuna'r ysgol ddiolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd ariannol hael ar gyfer yr Ysgol ac Adran Yr Urdd yn ddiweddar. Bydd yn arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfoethogi profiadau'r plant.

**Parti**
Bu plant y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dathlu ddiwedd yr hanner tymor mewn steil yn ddiweddar. Yr oeddynt wedi bod yn cwblhau gweithgareddau ar y thema 'parti,' ac fel diweddglo, bu iddynt wisgo i fyny yn smart a chael cyfle i fwynhau bwyd parti a chastell neidio yn ystod y dydd. Diolch i'r staff am y gwaith o baratoi diwrnod arbennig i'r plant.






**Arholiad Corn**
Llongyfarchiadau i'r bachgen hwn am ei lwyddiant yn yr arholiad corn yn ddiweddar. Diolch hefyd i Mr Dylan Williams am ei waith caled gyda'r disgyblion drwy gydol y cyfnod clo ac ers dychwelyd i'r ysgol.







**Gwyddoniaeth amgylcheddol**
Gwyddoniaeth amgylcheddol Dosbarth Cefn Du wedi mwynhau creu jariau llygredd er mwyn gweld effaith llygredd sbwriel ar foroedd ac afonydd. Cawsant gyfle i ychwanegu arllwysiad olew i'r jariau ac roedd hyn wedi arwain at drafodaeth ddiddorol am yr effaith ar fywyd gwyllt/anifeiliaid y môr

**Cyfarchion Penblwydd Arbennig**
Penblwydd Hapus iawn chi Enid Williams, Heli, ar eich penblwydd yn 90 oed ar ddechrau'r mis. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r achlysur.

**Genedigaeth**
Croeso cynnes i Freddie John, mab cyntaf i Gavin ac Amy, Cam Cyntaf, ŵyr cyntaf i Karen a Dewi Morris, gor-ŵyr cyntaf i Meira a Ron Turner, a gor-ŵyr cyntaf hefyd i Alwyn a Veronica Morris, Ceunant. Dymuniadau gorau i chi gyd fel teulu.

**Canolfan Waunfawr**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Waunfawr 2020 a 2021, nos Fercher 7fed Gorffennaf 2021 am 7.30pm yn y Ganolfan. Byddwn yn dilyn cyfarwyddiadau Covid-19. Cyfyngir y nifer all fynychu'r cyfarfod i 30 oedolyn. Os ydych yn dymuno bod yn bresennol ar y noson, cysylltwch â Carys Owen (01286 650594) erbyn 5ed Gorffennaf.

**Clwb 200 Canolfan Waunfawr**
Dyma enillwyr Ionawr-Mai 2021

Ionawr: £30: Sara Davies, Bryn Melyn; £20: Dewi Jones, Dol y Coed; £10: Alfie Jones, Hafod Rhug.

Chwefror: £30: Nelma Pritchard, 6 Croes y Waun; £20: Eluned Coles, 6 Bro Waun; £10: Nefyl Owen, Bryn Gwylan.

Mawrth: £30: Aeron Jones,9 Croes y Waun; £20: Helena Edwards, Anneddle; £10: Glenys Jones, Rhandir Mwyn.

Ebrill: £30: Irene Roberts, Pant Teg; £20: Nan Roberts, Madryn, Caeathro; £10: Delyth Jones, Tan y Coed.

Mai: £30: Geraint Williams, Croes y Waun; £20: Iolo Davies, Pennant; £10: Alice Johnstone, 10 Tref Eilian.

**Gair gan ein Cynghorydd Sir**
Dymuna Edgar (cynghorydd Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd Ddu) ddiolch i Gyngor Gwynedd am y profiad o fod yn Gadeirydd y Cyngor am y ddwy flynedd ddiwethaf. Gorffennodd y swydd ganol mis Mai a dywedodd "Rwyf wedi mwynhau'r profiad ac wedi dysgu am holl adrannau'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. Cefais gyfle i gynrychioli'r Cyngor yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ymysg llawer o ddigwyddiadau eraill. Agorais rhai adeiladau newydd o fewn y Sir."

Derbyniodd nifer o fudiadau lleol rodd yn ddiweddar o Gronfa'r Cadeirydd.

Cofiwch gallwch gysylltu ag Edgar ynglyn â mater personol neu gymunedol. (07900 331939)

**Capel y Waun**
Dyma'r gwasanaethau fydd yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf:

4ydd Parch. Eric Jones, Bangor
11eg Parch Harri Parri, Caernarfon
18fed Mr John Robinson
25ain Parch. Ann Jane

Er na fu'n bosibl dosbarthu a chasglu amlenni Cymorth Cristnogol o ddrws i ddrws eleni oherwydd Covid-19 – casglwyd £320.50 tuag at yr achos. Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb am bob cyfraniad.

**Clwb Pêl Droed Waunfawr**
Wedi cyfnod tawel yn hanes y Clwb, mae newidiadau ar droed, gyda'r rheolwr Dafydd Parry yn sefyll lawr, a Steven Lilly Hughes o Gaernarfon yn cymryd ei le.

Bydd Dylan Hughes yn cymryd drosodd fel prif drysorydd gan fod Dafydd Griffith yn sefyll i lawr fel trysorydd. Pob lwc i Steven a Dylan yn eich swyddi newydd.

Trefnwyd 4 gêm, sef

3.7.21 oddi cartref ym Methesda (cychwyn 2.30pm)

15.7.21 oddi cartref ym Modorgan (cychwyn 6.30pm)

22.7.21 oddi cartref yn Llangoed (cychwyn 6.30pm)

31.7.21 oddi cartref ym Montnewydd (cychwyn 2.30pm) – o bosibl bydd hyn yn newid

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal dros yr Aber yng Nghaernarfon bob nos Fawrth a nos Iau – cychwyn am 6.30pm – croeso i rywun sydd â diddordeb ymuno. Cofiwch ddilyn tudalen facebook CPD Waunfawr am fwy o wybodaeth.

**Diolchiadau**
Dymuna Dean, Anne, Dewi ac Arwel, ddiolch am bob awydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn. Diolch o galon hefyd am y rhoddion caredig tuag at Awyr Las.

**Enwau Lleol – Moel Cynghorion**
Mae nifer fawr o'r pentrefwyr wedi bod yn cerdded mwy nag arfer o'r llwybrau a'r mynyddoedd o'n hamgylch yn ystod y flwyddyn aeth heibio, a difyr pob amser ydi dysgu mwy am hanes rhai o'r enwau.

Roedd Aled Hughes ar Radio Cymru wedi gofyn a oedd rhywun yn gwybod beth oedd tarddiad yr enw Moel Cynghorion, ac mi gafodd yr esboniad gan Gwilym Morris Jones (Mois) wedi iddo siarad efo Aled Taylor a fu'n Warden ar yr Wyddfa am nifer fawr o flynyddoedd. Yn ôl Aled, yn yr hen amser, dyma oedd man cyfarfod rhai o benaethiaid yr ardal pan oedd materion pwysig angen eu datrys.

Chwedl arall am ardal Moel Cynghorion meddai Gwilym yw'r un am Gafl y Widdan (Aflwiddan) Yn ôl yr hanes, roedd cawres neu wrach wedi casglu llond ei ffedog o gerrig o wahanol feintiau yng Nghwmdwythwch. Ei bwriad oedd gwneud pont dros y Fenai o Arfon i Fôn ond wrth ddychwelyd dros ochr ogleddol Moel Eilio, llithrodd ei throed gan achosi i linyn ei barclod dorri a disgynnodd y cerrig yn bentwr ar y mynydd. Yn y man lle llithrodd ei throed rhed dwy ffrydlif o ddwr yn ól ei sodlau. Er i'r wrach fethu yn ei hamcan, llwyddodd John Jones y ffermwr i wneud cloddiau defnyddiol allan o'r garnedd. Gafl y Widdan y gelwir y lle hyd heddiw.

Diolch Gwilym ac Aled am yr wybodaeth ddifyr – gawn ni fwy plis?






**Pêl-droed – yr Ewros**
Tydio ddim yn gyfrinach bod y brawd a chwaer Elgan a Mared Rhys wedi gwirioni ar bêl droed, a gyda chystadleuaeth yr Ewros ar fin cychwyn, mae 'na hen edrych ymlaen.

Gwelwyd Elgan yn creu 'chant' pêl droed fel rhan o gystadleuaeth Mentrau Iaith Cymru, a llwyddo i gael ei dewis yn un o'r 3 uchaf – medrwch weld y fideo ohono ar wefan Mentrau Iaith Cymru.

Mae Mared hefyd wedi cymryd rhan yn ddiweddar ar raglen S4C Y Wal Goch, yn ogystal â siarad ar Radio Cymru am bêl droed. Da iawn chi eich dau, rydym yn falch o'ch llwyddiant.

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa



# Garddio

Yn aml dyma ein mis poethaf - ond gan fod y tywydd eleni wedi bod mor anwadal does wybod sut fydd pethau bellach. Mae'n amser braf, fel arfer, i eistedd yn yr ardd a'i mwynhau. Mae'n syniad da i gadw planhigion yn edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau oddi arnyn nhw. Mi fyddan nhw'n blodeuo am gyfnod hwy wrth wneud hynny.

Bydd angen sicrhau bod unrhyw blanhigion newydd yn cael digon o ddŵr – fe wnaiff dŵr golchi llestri yn iawn. Fel y nodwyd y mis diwethaf, mi fydd hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth yn talu ar ei ganfed.

**Tasgau**

1. Tacluswch farf yr hen ŵr (clematis) ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo.
2. Os oes gennych blanhigion mewn ystafell haul, gellir eu gosod yn yr awyr iach dros yr haf, mae'r cactws sy'n blodeuo dros y Nadolig yn hoff iawn o gael bod allan am gyfnod.
3. Dyfriwch y planhigion newydd, ond byddwch yn ddarbodus efo'r dŵr - mae socian unwaith y dydd yn drwyadl yn well na gwlychu'r wyneb fel bod y gwreiddiau'n mynd yn ddyfn i'r pridd yn hytrach na chadw ar wyneb y pridd. Mae bwyd hylifol yn llesol i blanhigion sydd mewn potiau (cofiwch roi soser bwrpasol neu gynhwysydd arall sy'n dal dŵr o dan bob pot) fel nad ydych yn gwastraffu dŵr. Bydd hefyd angen cadw llygaid ar lefel y dŵr yn y bath adar.
4. Torrwch yr hen flodau oddi ar y planhigion er mwyn ymestyn y tymor blodeuo.
5. Daliwch ati i dynnu'r lladron oddi ar y tomatos a chofiwch ddyfrio'n gyson - peidiwch â gadael i'r planhigion sychu ac yna eu boddi nhw, neu mi all y tomatos hollti neu ddatblygu '*blossom end rot*'. Bwydwch nhw efo gwrtaith hylifol pwrpasol pan fo'r ffrwythau cyntaf wedi ffurfio, hyd nes bo'r swp (*truss*) olaf wedi ffurfio gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y cynhwysydd gwrtaith.
6. Torrwch y corbwmpen (courgette) yn ifanc maent yn fwy blasus ac mi gewch gnwd gwell. Cadwch y tir yn llaith, dyfriwch o'u cwmpas fodd bynnag yn hytrach na drostynt. Cofiwch eu bwydo bob pythefnos efo gwrtaith hylifol neu gwrtaith tomato unwaith mae'r ffrwythau'n dechrau ymddangos. Gallwch hefyd fwyta'r blodau (rhywbeth na fedrwch chi eu prynu'n aml mewn siop). Rhowch lenwad e.e. caws ricotta, caws Grana Padano, croen lemwn wedi ei gratio ac ychydig o fintys yn y blodau cyn trochi'r blodyn a'r llenwad mewn cytew (batter) a'u ffrio - hynod o flasus!
7. Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf
8. Rhowch fwyd i'r lawnt, yn arbennig os na roesoch fwyd iddi yn y gwanwyn.
9. Dyma amser da i roi llyfiad o baent i unrhyw waith coed.







**Sychu a Chadw Llysiau**

Os ydych wedi tyfu mwy o lysiau nag sydd eu hangen, mae'n rhaid eu storio nhw'n ofalus neu fel arall gallwch eu rhannu efo'ch cymdogion a theulu.

Torrwch y coesau yn y bore ar ôl i'r gwlith ddiflannu a chyn bo'r haul yn grasboeth. Ni ddylech ddewis ond y dail sy'n berffaith. Mae rhai llysiau'n dirywio'n gyflym iawn ar ôl eu casglu. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y siwgr naturiol yn troi'n startsh. Ceisiwch gadw'r bwydydd sy'n rhyddhau ethylen - afalau, afocado, bananas, melon, nectarîn, gellyg, eirin gwlanog, eirin a thomatos - ar wahân i flodfresych, ysgewyll, bresych, ciwcymbr, pys a phupur.

Mae pob math o ffa yn rhewi'n dda, hefyd pys, blodfresych gaeaf, ysbigoglys (spinaets), moron (caraints os ydach chi'n Fonwysyn) a tsili.

Mae'r rhan fwyaf o deulu'r bresych yn gallu aros yn y ddaear tan fod angen eu defnyddio.

Gallwch hefyd rewi neu sychu perlysiau fel bod digon i'ch cadw i fynd dros fisoedd oer y gaeaf. Y cyngor dwi'n ei weld mewn llyfrau a chylchgronau yn aml yw i chi falu perlysiau megis mintys, persli neu rosmari yn fân a'u rhewi mewn bocsys plastig gwneud ciwbiau rhew, efo ychydig o ddŵr. Fydda i'n cael gwell hwyl trwy falu llysiau'r bara (*coriander*), mintys, persli, llysiau'r gwewyr (*dil*), gorthyfail (*chervil*) ayyb a'u storio mewn hen focsys 'têc awê' yn y rhewgell, gallwch wedyn eu defnyddio'n syth, yn unol â sawl llwy fwrdd/de sydd ei angen arnoch. Fyddai'n gadael sbrigiau o rosmari'n gyfan a dail saets a'u torri yn syth o'r rhewgell, eto'n unol a'r rysáit. Wrth gwrs gallwch hefyd sychu saets at y gaeaf. Mae gen i atgofion plentyn o Mam yn crogi bwnsh yn y cwpwrdd crasu ac yna'i ddefnyddio i greu stwffin saets a nionyn efo'r twrci ddiwrnod 'Dolig…

Gellir claddu cnydau sydd â gwreiddiau e.e. moron neu fetys, mewn tywod. (Mae llawer i arddwr yn cadw'r rhain yn y ddaear tan ar ôl y Nadolig.)

Mae angen awyr yn yr oergell, felly peidiwch â'i gorlenwi. 3-5 gradd C° (37- 40 gradd F°) yw'r tymheredd iawn.

Golchwch y llysiau cyn eu bwyta, ar ôl iddynt fod yn yr oergell.

Nid yw'n syniad da i gadw tomatos yn yr oergell; mae'n newid eu blas.

**Oeddech chi'n gwybod?**

Fod bresych yn cynnwys cymaint o galsiwm ag sydd mewn llaeth?

Os yw eich ffa dringo yn barod i'w bwyta, fe fyddant yn torri'n hawdd heb blygu.

Mae hadau pwmpen yn llawn o sinc ac yn dda i iechyd y brostad.

Mae banana yn dda i wrthweithio asid yn y stumog.

Mae mwy o fitamin C mewn llysiau gwyrdd tywyll nag sydd mewn rhai gwyrdd golau.

Mae oddeutu 200 o hadau mewn mefusen.

Mae llus yn eich helpu i weld yn y tywyllwch.

**Rhosyn Mynydd**






# Cystadleuaeth yr Euros wedi cyrraedd o'r diwedd!



Hir yw pob ymaros ac nid yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithriad i hynny. Ar ôl blwyddyn hir o ddisgwyl mae cystadleuaeth Euro 2020 wedi cyrraedd o'r diwedd. Yn sicr mae cyffro o gwmpas ond anodd fydd hi i efelychu 2016. Anodd yw coelio fod pum mlynedd wedi mynd heibio ers yr haf anhygoel hwnnw! Mi fydd pethau ychydig yn wahanol y tro yma, gyda llai o gefnogwyr yn gwneud y daith i Baku a Rhufain ond bydd y gefnogaeth yn gryf adref yng Nghymru dwi'n siŵr.

Mae rhai timau wedi bod yn lwcus ac mi fyddent yn cael y fantais o chwarae eu gemau gartref, fel Lloegr, Yr Alban, Yr Eidal a Sbaen tra fod eraill fel Cymru yn gorfod mynd i ben draw'r byd! Dwi'n gobeithio yn wir na fydd hynny yn rhoi gormod o anfantais i Gymru. Ar ôl blwyddyn hir o aros dwi'n siŵr y bydd yn fis i'w gofio unwaith eto ond yn bendant ni fydd yr un peth â chyffro 2016.

Erbyn hyn mae'n teimlo fel oes bell yn ôl ers i ni 'qualifyio'. 19eg Tachwedd 2019 oedd y dyddiad, sydd yn dipyn o amser yn y byd pêl-droed. Roedd Cymru mewn grŵp gyda Croatia, Hwngari, Slofacia ag Azerbaijan. Ni chafodd Cymru y cychwyn gorau i'r ymgyrch. Enillon nhw eu gêm gyntaf yn erbyn Slofacia ond colli dwy yn olynol yn erbyn Croatia a Hwngari. Serch hynny y ddwy gêm yma oedd yr anoddaf ar bapur. Fe lwyddodd Cymru i gael gêm gyfartal yn erbyn Slofacia oddi cartref a gêm gyfartal adref yn erbyn Croatia. Roedd y ddau ganlyniad yna wedi cadw'r freuddwyd yn fyw. Roedd angen ennill y ddwy gêm olaf yn erbyn Azerbaijan a Hwngari er mwyn sicrhau eu lle yn yr Ewros. A dyna yn union wnaeth Cymru! Ar ôl curo Azerbaijan roedd y gêm yn erbyn Hwngari yn *'winner takes all'*. Byddai'r tîm buddugol yn ennill eu lle yn yr Ewros. Enillodd Cymru o ddwy gôl i ddim ac roedd dathlu mawr yn y brifddinas y noson honno wrth i Gymru orffen yn ail yng ngrŵp E. Er y cychwyn sigledig fe lwyddodd Cymru i fod yn ddiguro yn eu pum gêm olaf a dim ond chwe gôl gafodd eu hildio drwy gydol yr ymgyrch. Dim ond chwe tîm arall oedd efo record amddiffynnol gwell na Cymru!

*'Fast forward'* nawr felly i haf 2021 ac at gystadleuaeth yr Euros. Mae Cymru yng ngrŵp A gyda Yr Eidal, Twrci a'r Swisdir. Yr Eidal yw ffefrynnau'r grŵp ac mae'n fantais anferth iddyn nhw eu bod yn cael chwarae eu gemau gartref yn Rhufain. Dwi'n teimlo fod safon chwarae Cymru, Twrci a'r Swisdir yn eithaf tebyg i'w gilydd mewn gwirionedd ac mae'n debygol y bydd y tri yn cymryd pwyntiau oddi ar ei gilydd. Dwi'n disgwyl gweld ambell i gêm gyfartal yn y grŵp yma.

Y Swisdir fydd yn wynebu Cymru gyntaf yn Baku ddydd Sadwrn y 12fed Mehefin. Mae'r Swisdir yn un o'r tîmau na wyddoch chi beth i'w ddisgwyl. Mae ganddynt record dda yn mynd mewn i'r gystadleuaeth gan eu bod wedi ennill eu chwe gêm ddiwethaf. Cyn hynny, doeddan nhw heb ennill mewn saith! Gobeithio felly y bydd Cymru yn torri'r rhediad a ddim yn ei gwneud hi'n saith gêm wedi eu hennill yn olynol. Mae'r Swisdir yn un o'r timau yna sy'n cyrraedd y cystadlaethau mawr ond byth yn gwneud yn rhy dda. Yn 2016, allan yn rownd yr 16 olaf oedd eu hanes. Y chwaraewyr i edrych allan amdanynt yw Xherdan Shaqiri a Ricardo Rodriguez.

Bydd Cymru yn wynebu Twrci hefyd yn Baku dydd Mercher yr 16eg Mehefin a bydd hwnnw yn teimlo fel gêm oddi cartref. Mae'n debyg y bydd cefnogwyr Twrci yno yn eu heidiau. Mae'r tîm yma wedi mynd o nerth i nerth yn y blynyddoedd diweddar ac o bosib mae'r flwyddyn ychwanegol i baratoi wedi bod o fantais fawr iddyn nhw. Fe lwyddon nhw i gymryd pedwar pwynt oddi ar Bencampwyr y Byd, Ffrainc yn ystod y *'qualifiers'*! Nid ydynt wedi colli yn eu chwe gêm diwethaf a dim ond wedi colli tair gêm yn y ddwy flynedd ddiwethaf! Twrci hefyd oedd un o'r tîmau gyda record amddiffyn gwell na Chymru yn y *'qualifiers'* gan ildio dim ond tair gôl drwy gydol yr ymgyrch! Methodd Twrci i ddod allan o'r grŵpiau yn 2016 felly byddant yn edrych i fynd ymhellach eleni. Y chwaraewyr i edrych allan amdanynt yw Söyüncü, Burak Yilmaz a Celik.

Gêm olaf Cymru yn y grŵp ac o bosib yr anoddaf yw Yr Eidal yn Rhufain 20fed Mehefin. Mae gan yr Eidal, yn debyg i Gymru, gymysgedd o chwaraewyr ifanc a phrofiadol. Nhw yw'r ffefrynnau i ennill y grŵp ac yn bendant mae ganddynt ychydig o fantais yn cael chwarae eu gemau i gyd yn Rhufain. Maent wedi mynd 27 gêm heb golli! Mi fydd hi'n dipyn o dasg felly i gael unrhyw beth allan o'r gêm yma. Yn ystod y *'qualifiers'* fe wnaeth Yr Eidal ennill 10 gêm allan o 10 gan sgorio 37 gôl. Anodd felly yw coelio na fydd y cewri yma'n sgorio goliau yn erbyn Cymru. Cyrraedd rownd yr wyth olaf wnaeth Yr Eidal yn 2016 felly byddent yn chwilio i fynd ymhellach y tro hwn. Y chwaraewyr i edrych allan amdanynt yw Marco Veratti, Immobile a Nicolo Barella.

Rob Page fydd yn arwain Cymru yn y gystadleuaeth a hyd yma mae Page wedi gwneud yn wych ac yn haeddu pob camoliaeth am gamu i mewn o dan amgylchiadau mor annisgwyl. Mae carfan Cymru yn gymysgedd dda o ieuenctid a phrofiad. Gyda rhai yn cario profiad o fod yn rhan o'r garfan yn 2016 megis Aaron Ramsey, Gareth Bale, Ben Davies, Chris Gunter ac eraill yn cael profiad cyntaf o fod ar y llwyfan mawr megis Dan James, Joe Rodon, Kieffer Moore a Rubin Colwill mae hi bendant am fod yn haf arbennig i bob un ohonyn nhw. Braf yw gweld Aaron Ramsey yn ôl mewn crys Cymru gan ei fod wedi methu sawl gêm yn ddiweddar gydag anafiadau ac mae'n wych gweld Joe Allen yn ôl hefyd. Mi fyddai yntau wedi methu'r gystadleuaeth os y byddai wedi cael ei chynnal y llynedd felly mae'n fantais i Gymru ei gael yn ôl yn y garfan yn holliach.

Dwi'n meddwl mai'r chwaraewyr i edrych allan amdanynt yng ngharfan Cymru heblaw am yr amlwg Gareth Bale ac Aaron Ramsey yw Joe Rodon, Ethan Ampadu a Dan James. Dwi'n siŵr y bydd y tri yma yn serennu!

Gyda'r pwysau o wneud cystal os nad yn well na'r tro diwethaf yn 2016 dwi'n meddwl y bydd hi'n anodd gwireddu hynny. Mae am fod yn dipyn o dasg i ddod allan o'r grŵp ond os all Cymru lwyddo i wneud hynny, fel y gwelsom yn 2016, mae unrhwy beth yn bosib yn y *'knockouts'*. Mae'n debyg iawn mai Yr Eidal fydd yn ennill y grŵp ac mi fydd hi'n frwydr rhwng Cymru, Twrci a'r Swisdir i gyrraedd yr ail safle. Mae pedwar o'r chwe tîm gorau yn nhrydydd safle y grwpiau hefyd yn mynd ymlaen i rownd yr 16 olaf felly mae hynny yn rhoi mwy o gyfle i Gymru i fynd ymlaen. Serch hynny, gan fy mod yn credu y bydd Cymru, Twrci a'r Swisdir yn cymryd pwyntiau oddi ar ei gilydd, anodd felly yw hi i mi weld y tîm yn trydydd safle grŵp A yn mynd trwodd. Os byddai rhaid i mi ddyfalu pa mor bell eith Cymru y tro hwn, rownd yr wyth olaf dwi'n credu fydd ein ffawd eleni. Mae'n anodd ein gweld yn gwneud cystal neu yn well na 2016 ond er dweud hynny does dim byd yn amhosib!

Erbyn yr amser y bydd y rhifyn hwn allan mi fydd yr Euros wedi hen gychwyn. Gobeithio felly y bydd Cymru dal yn y gystadleuaeth a dwi'n siŵr, beth bynnag wnaiff ddigwydd mi fydd Y Wal Goch yn falch iawn ohonyn nhw!

C'MON CYMRU!

**Mared Rhys**

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## 4ydd Mai 2021

**Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod misol i ddilyn**
**Croeso**
Yn dilyn trafferthion cysylltu ynghynt i gyfarfod o'r Is bwyllgor Meysydd Chwarae, nodwyd y buasai'r cyfarfod bellach yn cael ei drefnu cyn cyfarfod mis Mehefin o'r Cyngor, er mwyn bwrw mlaen â'r Cyfarfod Blynyddol heno Rhoddwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd a rhoddwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones.

**Etholwyd fel a ganlyn:**
Cadeirydd - Emma Chappell
Is Gadeirydd – Jane Pierce
Swyddogaeth y Clerc - Phyllis Ellis, Richard Ll. Jones a Rhian Evans-Hill
Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus - Phyllis Ellis, R. Hefin Williams, Ceri Angharad Jones, Richard Ll. Jones ac Emma Chappell, Idris Thomas ar yr is bwyllgor yma.
Is-Bwyllgor Meysydd Chwarae - Lowri Hughes, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill a Gareth Griffiths yn fodlon parhau ar yr is-bwyllgor.
Swyddogion i'r pwyllgorau, os yn briodol. Penderfynwyd i fod ddigon hyblyg yn y dyfodol lle os bydd angen neu os bydd achos yn codi yna bydd ddigon rhwydd ethol swyddogion y pryd hynny.

**I ethol cynrychiolydd ar Lywodraethwyr:**
Mae'r swyddogion presennol yn fodlon aros nes daw eu tymor i ben.
Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi - Lowri Hughes
Ysgol Gynradd Penisarwaun - Phyllis Ellis
Ysgol Gynradd Bethel - Richard Ll. Jones
Ysgol Gynradd Rhiwlas - Y Pennaeth byth wedi cadarnhau'r angen yn dilyn sawl llythyr ers dwy flynedd. Mae'r Cyngor felly yn cymryd nad oes sedd ar Lywodraethwyr Ysgol Rhiwlas i aelod o'r Cyngor Cymuned.

**I ethol cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru**
Cytunodd Rhian Evans-Hill i barhau i gynrychioli'r Cyngor eleni. Bydd y clerc yn cysylltu ag Un Llais er mwyn gyrru manylion cysylltu Rhian.

**Cofnodion Cyfarfod 6ed Ebrill 2021**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

**Materion o'r cofnodion**
Pileri Llechi - derbyniwyd llythyr yn diolch am ein cefnogaeth i'r frwydr i'w cadw.

Hysbysfyrddau - Mae Rhian Elin George yn gwneud ymchwil i weld os oes angen cais cynllunio ayyb.

**Gohebiaethau a Materion Eraill**
**Adra** - Cafwyd wybod mai Cyngor Gwynedd oedd yn torri gwair fel arfer i Adra, ond yn ddiweddar mae'n ymddangos efallai fod cwmni, neu weithwyr o Lerpwl yn torri'r gwair. Y Clerc i gysylltu ag Adra.

**Cynllunio**
C21/0352/18/Ll, 1 Tan y Bryn, Bethel - Estyniad deulawr ar y talcen, ynghyd â chreu llecyn parcio. Dim Gwrthwynebiad
C21/0239/18/DT, 38 Bro Eglwys, Bethel - Estyniad un llawr ar y talcen. Dim Gwrthwynebiad
Perthyn, Y Bedol, Bethel - Trwydded Eiddo. Dim Gwrthwynebiad

**Llwybrau**
**Llwybr o Fethel i gyfeiriad Fferm Y Bush trwy Fuarth Bodandreg**
Mae sawl un wedi cael eu rhwystro gan ddyn ar y buarth yma, gan dynnu sylw fod y llwybr wedi ei ddargyfeirio, a bod yn rhaid troi yn ôl. Yn dilyn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd, cafwyd cadarnhad nad oes unrhyw lwybr wedi ei ddargyfeirio yno. Mae holl lwybrau cyhoeddus oddi fewn ardal Bodandreg wedi ei harwyddo â disc cefndir gwyrdd a saeth felen yn dynodi llinell y llwybr.
**Llwybr i'r chwith lôn Capel Cefn y Waun am Rhwng y Ddwyryd**. Mae'r arwydd llwybr cyhoeddus a'r polyn yn gorwedd ar lawr ac angen ei roi i fyny yn ôl.


**Seddi Gwag**
Does neb wedi cynnig eu henwau ar gyfer y sedd yn Neiniolen. Mae hefyd sedd wag yng Nghlwt y Bont, Penisarwaun a Bethel. Os oes rhywun â diddordeb ymuno yng ngwaith y Cyngor Cymuned, mae mwy o wybodaeth i gael gan y Clerc.

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Arwydd Penisa'r-waun wedi diflannu o ochr Clwt y Bont**.
**Amserlen Bws Bethel** - Dim digon o amser i wneud siopa a dal bws yn ôl ac oes posib cael bws i fynd i Morrisons yng Nghaernarfon fel mae bws yn mynd i Tesco ym Mangor.
**Ffordd o Dan y Buarth i Glan Gors, Bethel** - Gor-ddefnydd gan loriau trwm. Mae yna arwydd yno ond mae un lorri wedi taro wal yr ardd, sydd gyda pheipen nwy ynddi a lorri arall wedi mynd i mewn i'r ffos.
**Lôn top Deiniolen heibio Parc, Dinorwig** - Mae'r lôn gyda thyllau mawr ynddi ac yn beryg ofnadwy. Y Clerc i gysylltu â'r Adran Priffyrdd.

---

# CROESAIR

## GORFFENNAF 2021




**Ar draws**
1 Ystyfnig (6)
4 Mwynhau eich hun ar achlysur arbennig (5)
8 Darn o beiriant sy'n troi o gwmpas pwynt sefydlog (5)
9 Tref yng ngogledd Cymru (6)
10 Siarp (3)
11 Y diwrnod cyn heddiw (3)
12 Wedi diffodd (4)
13 Ffôs ddofn i gario dŵr i dir sych (6)
15 Drachefn (3)
18 Tŷ Esgimo (4)
19 Cywion mathau o anifeiliaid sy'n hela'u bwyd (7)
22 Bod yn ddrwg gan (6)
23 Enw dyn (5)

**I lawr**
1 Grŵp o gantorion (5)
2 Tymer (5)
3 Teyrngarwch (8)
5 Amcanion (6)
6 Ymosod ar rywun yn chwyrn (9)
7 Stori grefyddol (5)
13 Gêm awyr agored (6 )
14 Y bwriad i wneud niwed (6)
16 Budreddi (3)
17 Teclyn siafio (5)
20 Pentref yng Ngwynedd (4)
21 Heb fod yn syth (3)

**ATEBION CROESAIR MEHEFIN**
**Ar draws** 1 Jeli, 3 Beisicl, 8 Biwro, 9 Record, 10 Eco, 11 Natur, 12 Gerllaw, 13 Lwc, 15 Poni, 17 Uno, 19 Englyn, 20 Neidio, 22 Ynni, 23 Etifeddes
**I lawr** 1 Ji-binc, 2 Lawnt, 4 Efrog, 5 Sacarin, 6 Carfan, 7 Poeri, 14 Curo, 15 Ponsio, 16 Newydd, 17 Undeb, 18 Rilen, 20 Iddew

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## 20fed Ebrill 2021

**Pwyllgor y Fynwent**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd ac a argymhellwyd i'r Cyngor oedd:-

Fod y broses i ddigideiddio manylion y fynwent bron iawn wedi ei gwblhau;

Codi ffioedd y fynwent 5% ar gyfer 2021/2022

Fod y nifer o boteli plastig gwag yn cynyddu ac yn sgil hyn, penderfynwyd tynnu'r biniau glas ailgylchu o'r fynwent a rhoi arwydd i fyny yn gofyn i bobl fynd a'i sbwriel gartref i'w hailgylchu.

Nodwyd fel rhan o'r broses ddigideiddio, fod angen adnabod darnau o'r fynwent. e.e. blociau A, B, C ayyb a bod hyn ar y gweill.

Adroddwyd fod cŵyn wedi'i dderbyn am gyflwr y fynwent ar ôl torri'r gwair gan fod gwair ar hyd y cerrig beddi. Penderfynodd y pwyllgor i drefnu cyfarfod gyda'r sawl sydd yn torri gwair i weld beth gellir ei wneud am y broblem.

**Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac fe gytunwyd a'r canlynol;

Bod llawer o ofyn am ddiwrnod casglu sbwriel ond oherwydd y pandemig nid oedd wedi bod yn saff i'w gynnal. Adroddwyd y byddai angen cynnal asesiad risg cyn gallu trefnu dyddiad.

Nodwyd fod siglen wedi torri ar gae chwarae Pwll Moelyn a bod hon yn mynd i gael ei hadnewyddu.

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cytuno ar oleuadau Nadolig ar gyfer 2021.

Mae taflenni asesiad risg yr offer campfa tu allan wedi'u rhannu a gobeithir creu rota i bawb gynnal asesiad risg. Nodwyd bydd angen cadw copi o'r asesiad ar ffeil fel tystiolaeth ei fod yn cael ei wneud yn wythnosol.

**Iechyd a Diogelwch**
Adroddwyd fod y materion canlynol angen sylw:

Angen creu polisi ar gyfer gweithwyr sydd yn gweithio ar ben ei hunain. Hyn yn holl bwysig nawr ar gyfer aelodau, staff a contractwyr sydd yn gwneud gwaith i'r Cyngor.

Angen adolygu'r Rheolau Sefydlog i ystyried oblygiadau Iechyd a Diogelwch

Bydd angen adolygu trefniadau ymweliadau gan unigolion pan yn cario allan eu dyletswyddau ar ran y Cyngor ar ben eu hunain

Bydd y pwyllgor yn adolygu asesiad risg ar gyfer y fynwent ac yn ei addasu fel yn briodol

Trefnu cyfarfod o'r pwyllgor

**Y Pwyllgor Cyllid**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd oedd:

Parhau i geisio codi arian o gronfa elusen 'Llanrug Poor House'

Cytunwyd i newid trefniadau ar gyfer ymddiriedolwyr elusen Fawnog Rhydd fel bod aelodau'r Cyngor i gyd yn ymddiriedolwyr.

Heb ethol is-gadeirydd i'r pwyllgor gan aros tan ar ôl y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

**Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd) Swydd y Prif Weithredwr**
Adroddwyd fod cyfweliad am Brif Weithredwr wedi bod, a byddai'r ymgeisydd llwyddiannus os oes un, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

(Nodyn ar ôl y Pwyllgor – Dafydd Gibbard o Llanrug wedi ei benodi yn Brif Weithredwr)

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Adroddiad ar ddefnydd o Dân Gwyllt – poenir am effaith sŵn ar anifeiliaid. Yn anffodus does gan y Cyngor ddim llawer o bwerau i rwystro defnydd o dân gwyllt ar unrhyw amser, ond yn parhau i annog trefnwyr i fod yn gyfrifol ac i sicrhau eu bod yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw ddigwyddiad, fel bod pobol yn gallu cymryd camau i warchod eu hanifeiliaid.

**Adroddiad ar Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**
Y gwasanaeth yma sydd wedi bod yn arwain ymateb y Cyngor i'r pandemig, wedi creu gwasanaeth newydd Track and Trace, ac wedi bod yn brysur yn ceisio sicrhau fod pawb yn dilyn y rheolau clo fel roeddent yn newid. Oherwydd hyn mae'r gwaith o ddydd i ddydd wedi gorfod llithro. Felly mae angen codi capasiti y gwasanaeth er mwyn gallu rhoi gwasanaeth teilwng ar gyfer gwarchod iechyd a lles cymunedau Gwynedd. Bydd adroddiadau pellach yn dod ymlaen i ddangos y camau fydd angen eu cymryd.

**Caeau Chwarae**
Adroddwyd fod cais wedi'i dderbyn i newid y giât gefn ar gae chwarae Dolafon i alluogi pram fynd drwyddi. Nodwyd fod y giât bresennol wedi'i chloi. Penderfynwyd i gael pris am gael giât addas a'i gosod.

**Ceisiadau Cynllunio**
Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

(a) Estyniadau deulawr ar dalcen 48 Nant y Glyn, Llanrug
(b) Gosod pwmp gwresogi a phibelli tanddaearol cysylltiedig yn Bryn yr Eryr, Ffordd Bryngwyn, Llanrug
(c) Gosod pwmp gwresogi tanddaearol ynghyd â dyfrdyllau cysylltiedig yn Llanrug Outdoor Education Centre Ffordd Bryngwyn, Llanrug
(ch) Estyniad un llawr yng nghefn Awelfryn Nant y Glyn, Llanrug
(d) Dymchwel y modurdy/gweithdy presennol a chodi modurdy/ gweithdy a defnydd atodol i'r tŷ ar lawr cyntaf Eithin Duon, Cwm y Glo
(dd) Codi estyniad unllawr cefn gyda ardal teras ar y to ac estyniad to canopi i gefn y llawr cyntaf er mwyn creu mynediad newydd ynghyd a newidiadau i'r eiddo
(e) Estyniad un llawr i gefn y ty ac adeiladwaith dormer i'r to cefn yn 1, Tai Hermon, Llanrug
(f) Codi tŷ deulawr a mynedfa newydd ar y tir gyferbyn â Treflan, Rhes Rhythallt, Llanrug
(ff) Dymchwel porch presennol a chodi estyniad unllawr ar ochr 4 Glanffynnon, Llanrug

SAMARIAID
Llinell ffôn Gymraeg
116123
neu
0808 164 0123
Ar gael bob nos rhwng
7 pm ac 11 pm



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanberis

## 12fed Mai 2021

**Mis Mai 2021:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher, 12 Mai 2021. Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i'r aelodau i'r cyfarfod cyntaf gyda'n gilydd ers mis Rhagfyr.
**Presennol ac Ymddiheuriadau:**
**Ward Padarn:** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Helen Sharp.
**Ymddiheuriadau:** Iwan Harding, Claudia O'Donnell, Trystan Thomas
**Ward Peris:** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, 14ain Ebrill 2021 fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**
**Cynllun Cyfaill:** Y gwasanaeth yn dal ar gael.
**Cae Chwarae Ger y Llyn:** Yn dilyn trafferthion gyda fframwaith siglen y plant bach trafodwyd y gost o drwsio yn erbyn prynu un newydd. Wedi ystyried costau a pharhad yr offer penderfynwyd o blaid un newydd. Cafwyd y penderfyniad unfrydol.
**Cae Chwarae Dôl Elidir:** Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd (CG) y bydd y giat i'r cae yn cael ei haddasu i'w gwneud hi'n bosib i rieni fynd â chadair olwyn neu goets babi i'r cae.
**Cae Pob Tywydd UEFA:** Er iddo gael enw cwmni arall, doedd y Clerc hyd yma ddim wedi cael ail bris.
**Cyrn y Band:** Adroddodd y Clerc iddo ysgrifennu at Ysgol Dolbadarn, ond na chafodd ateb.
**Parc Bach:** Adroddwyd i'r gwaith gael ei gwblhau ar y giat.

**Materion eraill:**
**Digwyddiadau'r Haf, Llanberis:**
Mae Cyngor Gwynedd wedi ymgynghori ynglŷn a nifer o rasys go sylweddol y cafwyd cais i'w caniatáu yn Llanberis ym mis Medi a Hydref. Penderfynwyd ei bod yn anodd ymateb a rhagweld sut effaith a gaiff y pandemig ar fywyd pob dydd erbyn hynny. A fydd Llanberis wedi ei foddi gan ymwelwyr ynteu a fydd cyfyngiadau yn parhau? Bydd yn rhaid i'r trefnwyr ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yn naturiol, ond roedd rhai'n synnu fod bwriad i gynnal digwyddiadau torfol o gwbl eleni. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond roedd pryder nad oedd digon o wybodaeth ar gael am y digwyddiadau ac awgrymwyd yn gryf na ddylent fod yn cynnwys cannoedd lawer o gystadleuwyr.

Mynegwyd hefyd fod angen gwell trefn na'r hyn a welwyd yn y gorffennol, o ran sŵn a masnachu (dylid rhoi cyfle i fusnesau lleol) a pwysleisiwyd na ddylid cynnwys ffair. Soniwyd os mai Dôl y Goeden fyddai'r lleoliad fod angen sicrhau nad oedd pobl leol yn colli defnydd y cae am ddyddiau cyn ac wedi'r digwyddiad, a nodwyd mai i Bwyllgor y Ganolfan yr oedd y diolch am gyflwr presennol ardderchog y cae. Yn y diwedd lles y gymdogaeth sy'n bwysig a sicrhau mai masnachwyr lleol fydd yn elwa.

**Arwyddion:** Nodwyd y bu cwyn am ddiffyg Cymraeg ar nifer o arwyddion. Dywedwyd hefyd eu bod yn or-niferus mewn rhai mannau a bod amheuaeth a oedd rhai wedi cael caniatâd cynllunio. Cytunwyd y dylid ymchwilio i'r hyn a nodwyd. Mewn perthynas ag iaith a dwyieithrwydd gofynnwyd i'r aelodau anfon at y Clerc enghreifftiau o ddwyieithrwydd a lle'r oedd yr iaith Gymraeg yn cael lle amlwg gan fusnesau.

**Yswiriant y Cyngor:** Gydag yswiriant y Cyngor yn dod i ben ar ddiwedd y mis roedd cwmni Zurich, yswirwyr presennol y Cyngor, wedi cynnig prisiau am flwyddyn, tair neu bum mlynedd, gyda'r cytundeb hwyaf yn eithriadol gystadleuol. Penderfynwyd ymrwymo wrth y cwmni, gyda'r un pris blynyddol, am bum mlynedd. Cynnig ac eilio: KJ / OG.

**Maes Parcio:** Nodwyd fod nifer yn gwersylla heb ganiatâd a bod rhai'n cynnau tân yno hefyd. Yn amlwg mae'n hen bryd i CG gael trefn ar y safle.

**Cae Chwarae a Maes Parcio Nant Peris:** Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn am y cae chwarae: roedd cyflwr y rwber yn annerbyniol ac roedd mainc wedi diflannu. Roedd wedi cysylltu â'r adran briodol yn CG ac wedi cael sicrwydd y bydd y materion yn cael sylw.

Adroddwyd bod sbwriel yn cael ei adael yn y Maes Parcio a mynegwyd fod y biniau oedd wedi eu cloi yn tynnu sbwriel. Addawodd y Clerc wneud ymholiadau

**Enw'r Mynydd (Yr Wyddfa ac Eryri):** Ar gais y Cadeirydd cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ymdrech ddiweddar i gael Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddefnyddio'r enw Eryri yn lle Snowdonia ac i alw'r Wyddfa wrth ei enw Cymraeg yn unig. Methu wnaeth cynnig y Cynghorydd o Feirionnydd ond fe ddywedodd yr Awdurdod goblygiadau'r cynnig i'w hystyried yn y dyfodol.

Fyddai deddfu ddim yn bosib ynglŷn ag enw fel hyn ond fe allai APCE osod esiampl trwy ollwng yr enwau Snowdon a Snowdonia a defnyddio'r enwau Cymraeg yn unig. Maes o law fe allai'r enwau Saesneg ddiflannu fel a ddigwyddodd yn achos mynydd uchaf gogledd America a adwaenir bellach fel Denali ac nid Mount McKinley, felly hefyd Uluru (Ayers Rock) yn Awstralia, er yno mae'r ddau enw'n cael eu defnyddio gyda'r enw brodorol yn gyntaf, a'r enw hwnnw yn ennill tir. Yn achos Denali cais gan lywodraeth Alaska wnaeth arwain at y newid enw. Yn y ddau achos cafwyd cydnabyddiaeth i'r enwau brodorol. Cytunwyd mai da o beth fyddai hynny yma a gyda phleidlais unfrydol penderfynwyd anfon at Brif Weithredwr yr Awdurdod i fynegi hynny ac i ofyn am ddefnyddio Yr Wyddfa ac Eryri yn unig ymhob ymwneud â'r mynydd a'r Parc Cenedlaethol. Cynnig ac eilio: BH / IO.

**Cynllunio:**
**Cyngor Gwynedd:**
**C21/0443/15/DT** - 3 Stryd Ianci, Llanberis - Cais ar gyfer codi llawr ychwanegol i'r estyniad cefn presennol a chodi estyniad unllawr to un-codiad ar hyd ochr yr eiddo - Dim sylw.

**Gohebiaeth:**
**HSBC - Siec 202501 heb glirio:** Daeth gohebiaeth ychwanegol ynglŷn â'r siec o £4,000 i CG a oedd heb ei chlirio ddwy flynedd yn ôl. Erbyn hyn mae Banc Barclays (BB) a oedd wedi talu i CG ond heb hawlio'r arian o'n cyfri ni yn ogystal â HSBC (ein Banc) wedi cysylltu yn dweud y bydd yr arian yn cael ei hawlio ym mis Mehefin. Yn ôl llythyr BB mae siec yn dal yn weithredol am chwe blynedd. Dyddiad y siec oedd Mawrth 2019 (nid Mai fel yng nghofnodion Ebrill eleni), felly mae'n ymddangos fod BB â'r hawl i fynnu'r arian er y blerwch ar eu rhan. Mae ail lythyr HSBC yn cydnabod yr hawl hwnnw. Perthyn i gyfrifon blwyddyn ariannol 2018-19 yr oedd y siec ac mae wedi ei dangos fel siec heb ei chlirio yn ein cyfrifon.

**Cais am Linellau Melyn - Llainwen:** Cafwyd cwynion am barcio ar yr allt sy'n arwain at Llainwen Ucha'. Roedd pryder na fyddai modd mewn argyfwng i gerbydau fel ambiwlans neu frigad dân gyrraedd at y tai uchaf. Roedd y llythyr yn gofyn am gefnogaeth i linellau melyn dwbl ar un ochr i'r ffordd. Roedd y Clerc wedi anfon llythyr at Adran Priffyrdd CG, ac wedi cael ateb i'r llythyr yn dweud iddo gael ei drosglwyddo i'r Uned Trafnidiaeth. Mae disgwyl iddynt gysylltu. Roedd rhai o'r aelodau yn amau a oedd y sefyllfa mor ddrwg, ond eraill yn cadarnhau ei bod felly ar adegau.

**Cau stryd:** Roedd Stryd y Farchnad wedi bod ar gau am rai dyddiau. Dywedodd y Clerc na chafodd siawns i roi gwybod i'r aelodau gan mai yn ystod bore cynta'r cau y cafodd wybod. Ambell dro mae'n rhaid cau stryd ar fyr rybudd, ond roedd y gwaith yma'n amlwg yn un a drefnwyd ymlaen llaw, gresyn na allai CG roi gwybod mewn da bryd.

**Llwybrau / Y Fynwent:**
**Y Fynwent:** Adroddwyd fod y cerrig a'r pridd wedi eu clirio.
**Llwybrau:** Yn ôl IO roedd cyflwr y llwybr heibio Gardda yn dderbyniol.

**Adroddiadau allanol:**
**Grŵp Adfywio Llanberis - Adroddiad y Clerc:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ar y 5ed o Fai a derbyniwyd nifer o adroddiadau. Un o'r rhai pwysicaf oedd yr un oedd yn manylu ar y ffordd y byddai CG yn mynd ati i weinyddu Parc Padarn a Dôl y Goeden mewn perthynas â digwyddiadau fel rasys mawr yn y dyfodol. Mae'r ardal wedi ei rhannu yn 6 rhanbarth fel na fydd yn rhaid i bopeth ddigwydd ar Gae'r Ddôl. Bydd pob cais yn cael ei sgorio er budd lleol, a bydd ymddygiad y digwyddiad yn cael ei gofnodi a'i ystyried cyn caniatau i'r un digwyddiad ddod yn ôl yn y dyfodol. Cafwyd sôn am wella isadeiledd, ond bydd peth problem parcio yn y ddwy flynedd nesa wrth i geblau trydan y pwerdy gael eu hadnewyddu. Codwyd y

mater fod rhai rasys yn llawer rhy fawr, mynegwyd na ddylai'r un ras gynnwys cymaint â 1,500 o redwyr fel a welwyd yn y gorffennol. Nodwyd fod CG wedi cysylltu â busnesau lleol i weld a ellid eu cael i gynnig gwasanaeth adeg y digwyddiadau, i gwmnïau lleol gael elwa. Parcio oedd mater arall a gafodd sylw a rhai yn dal i bwyso am gynnwys lleoliad yng Nglyn Rhonwy ar gyfer hynny.

Cafwyd adroddiad am Bartneriaeth yr Wyddfa a'r ymateb a fu, roedd dros 50 mewn cyfarfod a 198 yn lleol wedi anfon ymateb i'r ymgynghoriad trafnidiaeth. I ddatrys llawer o broblemau mae'n amlwg bydd angen buddsoddiad sylweddol, nid oes neb yn sicr o le y daw hwnnw.

Cafwyd cadarnhad y bydd Mynydd Gwefru yn cael ei chwalu a bod cwmni Engie yn ymgynghori ar beth i'w wneud a'r safle. Crybwyllwyd hefyd y bydd cryn waith adnewyddu yn digwydd yn y pwerdy dros y 4/5 mlynedd nesa ac wrth gwrs mae'r cysylltiad gwifrau trydan tanddaearol ag is-orsaf drydan Pentir i'w hadnewyddu. Caiff hynny effaith ar Reilffordd Llyn Padarn ac ar drafnidiaeth wrth ychwanegu llinell newydd.

Mae'r Amgueddfa Lechi yn ail agor wrth i reolau Covid-19 newid ac mae'r trafodaethau'n parhau mewn perthynas â buddsoddiad ariannol yn yr Amgueddfa yn y dyfodol.

Soniwyd fod CG ag 8 maes gwaith i gryfhau'r economi a gwella gwasanaethau yn sgil Covid. Ymhlith blaenoriaethau wrth godi cyfyngiadau mae rheoli trafnidiaeth a pharcio ynghyd ag atal parcio anghyfreithlon a thros nos.

Nodwyd fod pryder yn lleol am arwyddion: gormodedd ohonynt, diffyg dwyieithrwydd a'r posibilrwydd fod rhai wedi eu codi'n anghyfreithlon.

**Y Ganolfan:** Nodwyd fod murlun hardd i gofio T Rowland Hughes, y bardd a'r nofelydd o Lanberis wedi ei osod ar wal y Neuadd Fach. Mynegwyd gwerthfawrogiad unfrydol o'r gwaith.

**Y Gofeb:** Cafwyd trafodaeth ar y cynlluniau a ddaeth i law ar gyfer y Gofeb. Penderfynwyd cyfarfod ymhen yr wythnos i drafod y syniadau yn fanylach. **[Gwnaed hynny ac argymhellir fod gwerth mewn dau gynllun. Bydd hyn yn cael sylw y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.]**

# Chwaraeon**ECO**

**Gyda diwrnod derbyn cyfraniadau i'r rhifyn hwn yn cyd-daro a noson gyntaf Ewro 2020, mae'n amlwg bod dylanwad y gystadleuaeth yn drwm ar yr erthyglau. Pum mlynedd yn ôl roedd Mared a'r teulu yn rhan o'r Wal Goch ysgubol draw yn Ffrainc. Fel y mwyafrif ohonom, gwylio o gartref fyddwn eleni, yn ceisio ail fyw'r dyddiau hynny.**

**Croesawu Ewro 2020**

Neithiwr, bûm yn gwylio pêl-droed. Nid hyd syrffed ar y teledu, nid yng nghwmni VAR dadleuol blaen troed ac ewinedd llaw. Na, ar gae â'i laswellt wedi ei dorri'n daclus, ac arno'r offer gorau. Y chwaraewyr wedi eu dilladu â balchder yn lifrau eu clybiau, a thorf dda yno yn cefnogi. Sawl taid fu'n gyn-chwaraewyr yn eu plith. Pa ots am y cymylau duon, y gwynt main a harddwch Eryri wedi ei orchuddio dan niwlen o law mân? Fel torf cawsom ein diddanu am bron i dair awr.

Yr achlysur oedd penderfyniad pwyllgor Pêl-droed Ieuenctid Bethel i gynnal gemau Croesawu'r Ewros oedd yn cychwyn o fewn tridiau. Mae'n amlwg fod y gystadleuaeth yma wedi tanio dychymyg yr ieuenctid. O gwmpas y maes roedd baneri y timau fydd yn cystadlu, gyda'r Ddraig Goch yn amlwg. I gyd-groesawu rhoddwyd gwahoddiad i dimau dan 7 a dan 8 Y Felinheli a thîm dan 11 Llanfairpwll.

Y timau dan 7 a dan 8 o Fethel a'r Felinheli ddechreuodd y noson. Y wefr oedd gweld mwynhad y chwaraewyr. Gweld egin ddatblygiad yn dod; pasio'r bêl weithiau a digon o ergydio am y gôl; a'r dathliadau pan sgoriwyd gôl. A beth oedd y sgôr? Pa ots, bod ar y cae yn cynrychioli oedd yn bwysig. Braf hefyd oedd gweld y rheolwyr a'r rhieni yn cefnogi ac nid yn rhuo "Gwna hyn, gwna'r llall", ac ar ddiwedd y gemau, y timau yn cael tynnu eu lluniau gyda'i gilydd a baner y Ddraig Goch yn tanio ac uno'r un pryd. Roedd yr Yes Cymru ar grysau'r Felinheli yn fwy na neges/slogan rhywsut.

I goroni'r cwbl roedd Yws Gwynedd wrth law i arwain y plant mewn corws o'r Wal Goch. Yws gyda llaw wedi cael torri ei wallt y pnawn hwnnw gan farbwr o Dwrci – un o wrthwynebwyr Cymru yn yr Ewros. Joban go lew hefyd, heb arwydd o welltyn gwyn!

I ddilyn cafwyd gêm 'fewnol' gyda thimau dan 9 a dan 10 Bethel yn herio ei gilydd. Dipyn bach mwy cystadleuol y tro yma ond yn amlwg yr egin yn dechrau blaguro. Yn amlwg mae'r system symud drwy'r oedrannau yn gweithio.

Yna'r gêm olaf oedd tîm dan 11 Bethel yn herio tîm dan 11 Llanfairpwll. Roedd rheolwr Bethel, Andrew 'Klopp' Williams, wedi fy rhybuddio bod gwledd yn fy nisgwyl, ac ni chefais fy siomi. Mae carfan gref wedi ymgasglu ym Methel. Roedd tîm Llanfair tipyn mwy o faint ac yn fwy corfforol eu taclo, ond gan garfan Bethel oedd y sgiliau. Arwyddion o hyfforddiant safonol gan y clwb a hefyd yn amlwg yn y gwahanol garfannau Academi roedd y chwaraewyr yn mynychu. Mae dau o'r garfan eisoes ynghlwm â chlwb Wrecsam. Rheolaeth o'r bêl, pasio i bwrpas a chreu lle – hanfodion unrhyw dîm effeithiol. Yr oedd safon chwarae'r ddau dîm – yn enwedig wrth wynebu'r gwynt – i'w ganmol.

Cafwyd awr o chwarae wedi ei rannu yn bedwar cyfnod o 15 munud, dan reolaeth effeithiol a chefnogol iawn y dyfarnwr Karl Ashworth. Bethel oedd yn fuddugol o 3-0 gyda Meilir Davies, Caio









Orlik – cyfenw cyfarwydd – a Deio Davies yn rhwydo. I mi Deio oedd seren y gêm, ac roedd ei fellten o gic o 25 llath i'r rhwyd yn eiliad i'w thrysori. Mae gan hwn droed chwith feistrolgar. Cadwn olwg ar hwn.

Ond hefyd mae pêl-droed yng ngwaed Deio. Roedd y ddau daid yn 'rychwrs' yn eu dyddiau – Siôn Williams draw ym Mhen Llŷn, cyn troi at fod yn fachwr i glwb rygbi Caernarfon, a Gary Davies a adawodd ei farc ar nifer – fi yn eu mysg – draw yn Nyffryn Nantlle. Ei dad Andrew, hefyd yn 'centre half' cadarn i Fethel. Ei ewythr Owain, fel Deio, yn gryf yng nghanol cae i Ysgol Brynrefail a Bethel. Gyda llaw mae mab Owain draw yn ardal Abertawe ers sawl blwyddyn yn aelod o academi dan wyth yr Elyrch. A'i gêm ddiweddara', draw yn herio Aston Villa dan 8. Dyna beth yw cychwyn ar ystol yrfa lewyrchus gobeithio.

Diolch i chwi blant a phwyllgor am godi ysbryd llawer ohonom ar noson i'w mwynhau.

**Richard Lloyd Jones**

# Holi Owain Tudur Jones

Yn gyn-chwaraewr Cymru, ac yn un o banelwyr Ar y Marc gyda mi, fe fues i yn holi Owain Tudur Jones wrth iddo wneud ei ffordd i Baku ar gyfer gêm gyntaf Cymru yng nghystadleuaeth yr Ewros. Dyma beth oedd ganddo i'w ddweud...

**Sut wyt ti'n teimlo am grŵp Cymru? Ffyddiog y gallwn ddod allan ohono fo?**
Mae gen i 'mixed feelings' am y grŵp. Un o rheina lle fysa 'di gallu bod yn well, ond hefyd LOT gwaeth - dychmygwch fod o Hwngari a gorfod bod yng ngrŵp Ffrainc, Portiwgal ac Yr Almaen!! Dwi yn ffyddiog o ddod allan o'r grŵp, ond bydd rhaid cael cyfanswm da o bwyntiau o'r ddwy gêm gyntaf. Dwi'n disgwyl gweld yr Eidal yn ennill pob un o'u gemau nhw yn y grŵp!!

**Pa mor bell eith Cymru y tro yma? Allwn ni fynd un cam yn well na 2016?**
Dwi'n berson positif, ond mi fydda'i yn synnu os fyddwn ni'n medru efelychu neu fynd gam ymhellach nag yn 2016. Os gallwn ni gyrraedd yr 8 olaf, mi fydd Cymru wedi gneud yn grêt. A 'da ni ddigon da i wneud hynny. 8 olaf i Gymru.

**Pwy wyt ti'n feddwl fydd yn serennu i Gymru?**
Joe Rodon. Mae o'n barod i gamu mewn i esgidiau Ashley Williams ac arwain yr amddiffyn.

**Pa dîm ddylai pawb fod yn edrych allan amdanynt?**
Sori eto i Hwngari, ond dwi'n meddwl bydd yr ennillwyr yn dod o'u grŵp nhw. Ffrainc yn gryf, ond ma gen i deimlad bydd Portiwgal yn dal eu gafael ar y tlws.

**Ti'n cael cynnig mynd am bryd bwyd gyda 3 chwaraewr arall sydd wedi chwarae i Gymru byw neu yn farw, pwy wyt ti am ddewis a pham?**
Nai sticio efo 3 dwi'n nabod yn dda. Chris Coleman, Joe Allen ag Ashley Williams. Mae 'na noson allan dda i'w chael yn fana.

**Beth yw dy hoff atgof di fel rhywun ym myd pêl-droed Cymru?**
Hoff atgof(ion) fel lot oedd cael bod yn y gemau yn Ewro 2016 a gwylio llwyddiant Cymru. Gobeithio y bydd 'na brofiadau tebyg i ddod dros yr wythnosau nesaf.



Dwi'n siwr fod nifer fawr o ddarllenwyr yr Eco yn genfigennus iawn o Owain sydd wedi gallu mynd draw i gefnogi Cymru yn yr Ewros. Mi fyddai lot yn bendant yn hoff iawn o fod yn ei esgidiau ef!

**Mared Rhys**

Llun: S4C/Iolo Penri

## Llwyddiant i ieuenctid y clwb hoci



Mae nifer o chwaraewyr ifanc Clwb Hoci Caernarfon wedi bod yn mynychu treialon hoci ar gyfer tîm dan 13 gogledd Cymru. Braf yw cael llongyfarch y criw sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn mynd ymlaen i gynrychioli gogledd Cymru mewn twrnament yn Nottingham ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau i Fin Jackson, Maia Murray, Hana Owen, Martha Nel, Bella Evans a Fflur Lloyd Jones a phob hwyl i chi yn Nottingham!






ISSN 2516-7235